


CANU GWERIN

(FOLK SONG)

3/1980



CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU
THE WELSH FOLK — SONG SOCIETY

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Welsh Folk-Song Society

(Sefydlwyd/Founded 1908)

Y SWYDDOGION A'R PWYLLGOR GWAITH, 1979-80
THE OFFICERS AND EXECUTIVE COMMITTEE, 1979-80

Llywydd/President: Mr. W. Emrys Cleaver

Is-Lywyddion/Vice-Presidents:

Dr. MOSTYN LEWIS, Mrs. K. IDWAL JONES, Dr. OSIAN ELLIS,
Miss MAXWELL FRAZER, Y Fonesig/Lady AMY PARRY-WILLIAMS,
Y Fonesig/Lady ENID PARRY, Mr. E. BENNETT OWEN

Cadeirydd/Chairman: Dr. MEREDYDD EVANS

Is-Gadeirydd/Vice-Chairman: Dr. HYWEL GRIFFITHS

Pwyllgor Gwaith/Executive Committee:

Mrs. EUNICE BRYN WILLIAMS, Mrs. STEPHEN J. WILLIAMS, Mrs. G. MEGAN TIBBOTT, Mr. ALUN W.G. DAVIES, Mrs. MARGARET OWEN, Miss PHYLLIS KINNEY, Y Parch/The Rev. ELFED LEWIS, Mrs. SIÂN EMLYN EDWARDS, Mr. CERIS GRUFFUDD, Mrs. MEINIR MACDONALD, Mrs. MYRA REES, Miss J. EIRIAN JONES, Mr. DANIEL HUWS, Mr. W. REES HOWELLS

Trysorydd/Treasurer:

Mrs. FRANCES MÔN JONES,
Coed y Garth Lwyd, Llanfair Caereinion, Powys.
Ffôn: Llanfair Caereinion 545

Ysgrifennydd/Secretary:

Mrs. BUDDUG LLOYD ROBERTS,
Hafan, Cricieth, Gwynedd. Ffôn: Cricieth 2096

Golygydd y Cylchgrawn/Editor of the Journal:

Mr. D. ROY SAER,
Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd
Ffôn: Caerdydd/Cardiff 569441

Archwiliwr/Auditor:

Mr. H.F.J. CADWALADER

CANU GWERIN

(FOLK SONG)

3/1980

CYLCHGRAWN CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU
JOURNAL OF THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Golygyddol/ <i>Editorial</i>	3
Cyfranwyr/ <i>Contributors</i>	4
Canu a Chyflwyno'r Alaw Werin W. EMRYS CLEAVER	5
(Singing and Presenting the Folk Song)	
Delweddau'r Canu Gwerin E.G. MILLWARD	11
(The Imagery of Folk Song)	
Casgliad Caneuon Tal Griffith Y GOLYGYDD	22
(The Tal Griffith Song Collection)	
1. Mae Gen I Swllt	28
2. Y Gwydr Glas	29
3. Y Lleuen	31
4. Y Gwas a'r Ceffyl	32
5. Mae Gafr Eto	33
6. Yng Nglan y Môr Mae Gwin ar Werth	34
Newyddion/ <i>News</i>	37

Y Cyfranwyr biau hawlfraint y caneuon a'r erthyglau. Cedwir yr holl hawliau
Songs and articles are the copyright of the Contributors. All rights reserved

Golygydd/*Editor*: D. ROY SAER —

Adran Llên Gwerin, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd
Department of Folklore, Welsh Folk Museum, St. Fagans, Cardiff.

Cysodi: Mei/Argraffu: Argraffdy Arfon

Llun clawr (trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru):
Abel Jones, "Bardd Crwst" (1830-1901), "yr olaf o'r baledwyr
mawr" yng Nghymru.

Cover photograph (by courtesy of the National Library of Wales):
Abel Jones, "Bardd Crwst" (1830-1901), "the last of the great
'ballad' writers/singers" of Wales.

Fe welir bod y rhifyn presennol o'n Cylchgrawn yn llai o faint na'i ragflaenydd. Nid testun siom yw hyn yn gyfangwbl, fodd bynnag, gan mai'r rheswm yw fod cwtogi a chynilo i'r cyfeiriad hwn yn cynorthwyo tuag at gyhoeddi dau gyfraniad pwysig arall gan y Gymdeithas. (Rhoir manylion ychwanegol ynglŷn â'r rheini yn ein hadran "Newyddion" isod.)

Ni cheir gennym erthygl yn Saesneg y tro hwn. Rhaid fu rhoi'r gorau i'n bwriad gwreiddiol o gynnwys cyfraniad gan Mr. Alun W.G. Davies ar drefniannau caneuon gwerin Cymru. Yn lle hwnnw fe gynhwysir erthygl Gymraeg gan Mr. E.G. Millward. Mewn ffurf rywfaint yn wahanol ymddangosodd yn **Y Traethodydd** rai blynyddoedd yn ôl ac y mae hefyd yn dwyn perthynas agos â'r ddarlith a draddododd Mr. Millward yn ein cwrs penwythnos yn Aberystwyth yn 1978. O fewn i gloriau Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru y mae'r cyfraniad hwn yn un arloesol o ran ei destun — fel, yn wir, y gellid ei ddweud hefyd am gyfraniad ein Llywydd yn y rhifyn presennol.

Unwaith yn rhagor, drwy gymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru y cyhoeddir y Cylchgrawn.

EDITORIAL

The present issue of our Journal is shorter than its immediate forerunner. This, however, need not be a matter for unqualified regret, since economising in this particular direction is assisting towards the publication of two other important contributions by the Society. (Additional details of those are given in our "News" section below.)

No article in English appears in this issue, since it became necessary to abandon our original intention of featuring a contribution by Mr. Alun W.G. Davies upon arrangements of Welsh folk song. That is now replaced by an article in Welsh from Mr. E.G. Millward, an article which a few years ago appeared in a slightly different form in Y Traethodydd and which also relates closely to the lecture given by Mr. Millward at our weekend course in Aberystwyth in 1978. Within the covers of the Journal of the Welsh Folk-Song Society this provides a pioneer contribution in terms of subject-matter — as might, indeed, be said also of our President's contribution in the present issue.

Once more, the Journal is published with the financial assistance of the Welsh Arts Council.

W. EMRYS CLEAVER

Llywydd y Gymdeithas, a bu iddi gynt yn Drysorydd (1947-57) ac Ysgrifennydd (1957-76). Ym maes canu gwerin Cymru cyfrannodd yn helaeth hefyd fel casglwr, datgeiniad, trefnydd cerddorol, ymchwiliwr, darlithydd, darlledwr, ac fel beirniad yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen. Yn 1964 cyhoeddodd gyfrolau *Guŵr y Gân* a *D. Vaughan Thomas*, ac yn ddiweddarach darparodd y defnyddiau Cymreig ar gyfer *Folksongs of Britain and Ireland* (gol. Peter Kennedy, 1975). Efe oedd Trysorydd Cymdeithas Ddawns Werin Cymru o'i chychwyn yn 1949 hyd 1975, a'i Chadeirydd wedi hynny.

President of the Society, and formerly its Treasurer (1947-57) and Secretary (1957-76). In the field of Welsh folk song he has also contributed widely as collector, singer, arranger, researcher, lecturer, broadcaster, and as adjudicator at the National Eisteddfod and the Llangollen International Musical Eisteddfod. In 1964 and 1968 respectively he published his volumes Musicians of Wales and D. Vaughan Thomas, and he later provided the Welsh materials for Peter Kennedy's Folksongs of Britain and Ireland (1975). For the Welsh Folk Dance Society he was Treasurer from its founding in 1949 until 1975 and served afterwards as its Chairman.

E.G. MILLWARD

Fe'i magwyd ar aelwyd ddi-Gymraeg yn ninas Caerdydd eithr wedi ei ysbrydoli gan Mr. W.C. Elvet Thomas yn Ysgol Uwchradd Cathays astudiodd iaith a llenyddiaeth Gymraeg yn y coleg ac enillodd radd Dosbarth Cyntaf yn y pwnc yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, yn 1950. Cafodd radd M.A. wedi hynny am waith ymchwil ar "Eben Fardd". Bellach y mae'n Uwch-Darlithydd yn Adran y Gymraeg, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, gan arbenigo ar lēn y 18fed a'r 19eg ganrif. Bu ar un adeg yn Is-Lywydd Plaid Cymru a phery'n weithgar gyda'r Cymdeithasau Bro.

Although brought up in a non Welsh-speaking home in Cardiff, E.G. Millward was inspired by his Cathays High School teacher, W.C. Elvet Thomas to study Welsh language and literature at university level and in 1950 he obtained a First Class Honours degree within that field at University College, Cardiff. An M.A. degree followed, for his research dissertation upon the 19th-century poet "Eben Fardd", and he is today a Senior Lecturer in the Department of Welsh, University College of Wales, Aberystwyth, where he specialises in Welsh literature of the 18th and 19th centuries. He was for a period a Vice-President of the Welsh Nationalist Party and remains active with Local Communities.

CANU A CHYFLWYNO'R ALAW WERIN

(Singing and Presenting the Folk Song)

W. Emrys Cleaver

[Addasiad yw'r isod o sgwrs a draddodwyd gan ein Llywydd presennol yng nghwrs penwythnos y Gymdeithas yn Abertawe yn 1968. Y mae recordiad o'r sgwrs wreiddiol i'w glywed ar dapiau rhifau B657-8 yng nghasgliad Amgueddfa Werin Cymru.

Nid dyma gyfanswm y sylwadaeth a glywyd gan Mr. Cleaver ar y pwnc hwn o bryd i'w gilydd yn ein cyrsfeydd. Ar draws blynnyddoedd, yn ffurfiol ac anffurfiol, traethodd rai troeon ar "Ganu a Chyflwyno", a gobeithio y gellir cyhoeddi detholiad o'i sylwadau ychwanegol yn ein cylchgrawn wedi hyn. Gol.]

'Does gen i fawr iawn o *ddarlith* i chi. *Sgwrs* fach gawn ni. 'Dw i'n meddwl bod gen i destun pwysig, serch hynny, os nad y pwysicaf o'r cwbl, achos, wedi'r cyfan, *canu* yr alawon gwerin yma ydy'r peth pwysig, nid eu hastudio nhw yn gymaint. Mae'n rhaid gwneud hynny hefyd, wrth gwrŷ, ac mae'n rhaid gwneud hynny i raddau i allu eu canu nhw'n iawn, ond y canu ei hunan ydy'r peth pwysicaf oll.

'Dw i am fentro dwyn ychydig o sylwadau gerbron ar y testun yma: nid bod gen i gymhwyster "*arbenigwr*" i'ch *dysgu* chi i ganu caneuon gwerin, ond 'y mod i bellach wedi cael profiad go helaeth o fwynhau canu'r caneuon hyn fy hunan ac o wrando ar wahanol gantorion, yn hen ac ifanc, yn eu mwynhau nhw fel finnau, ynghyd â chael tipyn bach o brofiad gwrando fel beirniad. 'Dw i ddim yn proffesu y *galla*' i eich dysgu chi i ganu'r rhain fel y dysgir cantorion i ganu unawd gan yr athro proffesiynol, a hynny oherwydd bod natur y gân werin yn rhywbeth hollol wahanol.

Mae yna reolau, mae yna dechneg, i'r gân gelf, a thechneg i'r lleisydd, ac mae'r dechneg honno'n weddol bendant. Mae yna safonau arbennig ynglŷn â chynhyrchu llais, er enghraifft, sydd mewn digon o lawlyfrau, ac arbenigwyr llais i'ch cyfarwyddo chi sut i ganu cân. Mae dehongliad y gân gelf hefyd yn weddol eglur. Cân yr awdur yw hi, ac mae ei dehongliad hi, i raddau, wedi cael ei benderfynu ymlaen llaw i chi. Mae iddi farciau mynegiadol ar y copi yn barod, a rhaid i chi barchu dymuniadau'r awdur. Yr awdur piau hi; ei ddawn a'i fedr e' sydd wedi'i llunio hi, ac efe sydd wedi rhoi'r marciau yno o bwrpas, i sicrhau ei mynegi hi yn y ffordd y mae e' wedi dymuno ei mynegi a'i dehongli hi.

'Does dim dysgu yn yr ystyr yma ar y gân werin. 'Dyn ni ddim yn dysgu hon wrth reolau, neu yn ôl y dechneg arferol. 'Ches i fy hunan, er enghraifft,

erioed fy *nysgu* i ganu alaw werin. Fe ddigwyddodd y peth ar y dechrau imi hoffi alawon gwerin pan own i'n ifanc iawn. Fe'u clywais nhw gan fy mam — ac mi 'rown i yn llythrennol yn cael fy magu yn y crud, a mam a'i throed yn siglo hwnnw, ac mi ges i 'magu hefyd yn y siôl, a'i chlywed hi'n canu hwiangerddi, i guriadau'i chalon hi. Dyna'r profiad; ac mi ddeliais i'w canu nhw yn fy ffordd fy hun — i'm plesio i, beth bynnag — ac wrth eu canu a'u canu nhw 'dw i'n meddwl 'mod i wedi dod i'w *meddiannu* nhw.

'Dw i'n cofio cael gwersi gan athro canu ar y dechneg o leisio ac 'roedd e'n cyfadde' ei hunan, "Wna i ddim ymyrryd â chi o gwbl fel canwr alawon gwerin. 'Does gen i ddim i'w ddweud wrthoch chi. Mae'r gân werin yn eich dwylo chi'ch hunan. Mater cwbl bersonol i chi yw hi." Ac mae hynny'n berffaith wir.

Mi gefais y fraith hefyd o fod yng nghwmni J. Lloyd Williams. 'Rown i'n byw yn Nyffryn Clwyd am gyfnod ac yntau'n byw yn Rhuthun, o fewn ergyd carreg i mi, ac 'rown i yn ei gwmni fe yn barhaus. Ac mi 'roedd e'n rhoi nid cynghorion, ac nid unrhyw gyfarwyddyd pendant, ond mi 'roedd e'n *trafod* yr alawon â mi. Ac mi awgrymodd rai imi i'w dysgu nhw; 'roedd e'n meddwl y byddai'r rheini yn fy siwto i. Dyna'r cwbl wnaeth e' — ond mi roddodd *gefndir* yr alawon hynny i mi, a'r geiriau, ac 'roedd hynny yn gystal *dysgu* â dim yn y byd.

'Dw i'n meddwl mai'r ateb gorau ges i erioed oedd gan ferch fach oedd yn canu yn yr Eisteddfod Genedlaethol un waith. Merch fach ifanc, ac own i wedi dotio ar ei chanu hi — canu hyfryd a naturiol, un o ganeuon yr awyr agored, ac oeddech chi'n ei dychmygu hi ar y meysydd yn cerdded wrth ganu hon. Ac mi ofynnais iddi ar y diwedd. "Pwy ddysgodd chi i ganu'r alawon gwerin 'ma?" "O, neb," meddai hi, "Neb. Dim ond 'mod i yn eu hoffi nhw ac yn eu mwynhau nhw." Wel, dyna'r ateb!

Mae'n hawdd 'nabod y cystadleuwyr yma sydd wedi cael eu *dysgu'n* ormodol fel y cyfryw. Mae plant yn cael eu dysgu'n ormodol o lawer iawn, ac 'rych chi'n 'nabod rheini ar unwaith, a nhw sydd yn colli'r wobr. Mae nhw'n mynd i *unawdu*; canu'r unawd fawr ar y llwyfan yn hytrach na chanu a chyflwyno'r alaw werin, yn naturiol ac yn ddiroddres.

Mae'r gân werin, o ran ei chyflwyno a'i chanu, ar ei phen ei hun. I ddechrau, nid cân ar gopi oedd hi o gwbl, ond cân ar lafar, yntê? Nid cân wedi'i sgrifennu i lawr yn ofalus gan ryw un cyfansoddwr medrus, ond cân werinol wedi'i throsglwyddo i lawr o enau i enau, o gof i gof, o genhedlaeth i genhedlaeth, ac wedi'i chanu a'i chanu a'i newid a'i newid — ei newid er gwaeth, ambell dro, ond mae yna eraill, wrth gwrs, sydd wedi'u gwella. A dyma hanes y goreuon: wedi tyfu, wedi datblygu, wedi'u perffeithio, erbyn hyn, yn emau bach, yn berffaith gwbl. "Cariad Cyntaf", er enghraifft: ellwch chi fyth â gwella ar honna, o ran nodyn, cymal a chyfanwaith — cyn belled ag y mae dawn ac awen gerddorol yn mynd.

Os yw cân werin wedi ei dysgu o gopi — fel y mae hi yn aml y dyddiau

hyn — yn y cyflwyniad y mae mwy o *ryddid* i chi ei mynegi hi, a mynegi eich hunan drwyddi, fel y mynnoch chi — mwy o ryddid ynglŷn â hi nag unrhyw gân gopi arall. A dyna'r peth 'dw i'n ceisio ei bwysleisio, cyn belled ag y byddwch chi yn ei mynegi hi yn ddiffuant ac yn effeithiol, ac yn llwyddo i ennill clust a diddordeb eich cwmni. (Mae'r cwmni, gyda llaw, yn achos cân werin, yn bwysig dros ben — yn cydweithio, a chyd-ganu, a chyd-deimlo â'r "storiwr" neu ganwr alawon gwerin.) Cyn belled ag y mae amser, rhithm a phethau elfennol felly yn y cwestiwn, cedwch siâp neu ffurf yr alaw. Cedwch nodau'r alaw hefyd — ond os bydd yna ambell nodyn arall yn dod i fewn, wel, popeth yn iawn, os nad yw hynny'n sbwylio'r alaw fel ffurf gyfan.

Mewn cymhariaeth â'r gân gelf, sy'n flodyn wedi cael ei wrtheithio yn y tŷ gwydr gan y cyfarwydd, mae'r gân werin yn debycach i flodyn gwyllt y wlad. Oherwydd hyn, nid meddwl yr ŷch chi yn bennaf, wrth ganu caneuon gwerin, am gywirdeb sain, am leisio (*vocalisation*), am gyfanrwydd brawddegau, y pethau yma sy'n dod i ystyriaeth beirniad cerdd arferol, ond am *fynegi teimlad*, mynegi profiad, mewn modd syml, ac yn anymwybodol o'r alaw fel y cyfryw. Dim ond i'r canwr wneud hynny mi ellwch faddau iddo am ryw wallau bach technegol. Ei donyddiaeth, er enghraifft — 'roedd llawer o'r hen gantorion yn wael eu tonyddiaeth (os nad oedden' nhw'n canu chwarter-tonau, efallai). Y pwynt yw ein bod ni'n anghofio'r pethau technegol yma wrth eu canu a'u cyfleu nhw yn naturiol, a gwneud y stori'n fyw i'r gynulleidfa.

Mae'n gwbl wahanol i sefyllfa'r canwr llwyfan a'r canwr proffesiynol. Mae'r llais yn hollbwysig i hwnnw, ac mi ellwch faddau iddo fe am fwrddo'r geiriau — fel mae e'n ei wneud yn aml iawn — os bydd ei lais e'n wych. 'Rych chi'n cael eich swyno ar unwaith gan ansawdd y llais. Ond i'r canwr gwerin, nid y llais fel y cyfryw sydd yn cyfrif, ond y dehongliad a'r ystyr. Mae'r un gwahaniaeth, os mynnwch chi, rhwng y llefarydd a'r adroddwr ar y naill law a'r lleisiwr neu'r canwr ar y llall.

Mi 'roedd hyn yn dod i'r amlwg yng nghanu'r hen gantorion alawon gwerin, y rhai oedd yn effeithiol anghyffredin. Bob Roberts, Tairfelin, er enghraifft. Mi 'roedd Bob yn sgrechain, weithiau, mewn gwirionedd — ar y nodau uchaf, er bod ei lais e'n ddigon clochaid i gyrraedd y *top note* yn weddol ei donyddiaeth — ond chlywsoch chi neb yn canu "Dydd Llun; dydd Mawrth, dydd Mercher" mor effeithiol â Bob Roberts. A John Thomas, Llangwm. Dyna i chi ganwr da! Ar ei eistedd, ac yn cau'i lygaid, yn canu'r "Cobler Du Bach" neu rywbeth felly. Mi 'roedd yna ryw waeddiadau gan John Thomas — 'roech chi'n cael dychryn wrth ei glywed e' weithiau! — ond lliwio gair oedd e'. 'Roedd y gwaeddiadau'n dod yn y lle iawn bob tro! Ac er ei fod e'n arw ei lais, 'roedd e'n canu'r "Cobler Du Bach" yn ddarluniadol. 'Roech chi'n *gweld* yr hen gobler bach wrth ei waith, ac 'roedd e'n *actio*'r gân hefyd, 'roedd e'n mynd i fewn iddi gymaint mewn

mynegiant a theimlad. Fe glywsoch "Ben Bach", wedyn. Wel, dyna i chi ganwr bendigedig! Nid ar gyfrif ei lais. 'Roedd yna felyster yn ei lais e', ond 'doedd e' ddim llais. Mi fuasai'r *Professor of Singing* yn ei alw fe yn "white voice", un heb gyfoeth, heb ddigon o leisio, yn perthyn iddo fe. Ond, am ganu cân fel "Ar Lan y Môr", fuodd neb erioed mor swynol â Ben Phillips. Mae yna elfennau yng nghanu'r hen gantorion hyn sy'n werth inni wybod amdany'n nhw a'u hefelychu nhw, hyd yn oed os medrwn ni ganu'n well na'r rhain o safbwyntiadau eraill. ('Roedden nhw, wedi'r cwbl, yn hen pan gawson' nhw eu recordio.)

Nid dweud ydw i, cofiwch, nad ydy'r pethau eraill yn bwysig hefyd. Mae peidio â thori gair a brawddeg yn bwysig anghyffredin. Mae bod mewn tonyddiaeth dda yn bwysig. Gorau i gyd os bydd y llais gwyachaf posibl gyda chi i ganu alaw werin. Ond dweud ydw i mai y *dehongliad* fel y cyfryw — gyda *chymorth* eich llais da, eich brawddegau celfydd a graenus, eich geirio effeithiol, a'ch lliwio a'ch pwyntio a'ch anwylo a'ch anwesu ar ambell air — sydd bwysicaf oll mewn canu alaw werin. Y *dehongliad* — byw y gân, a theimlo'i phrofiad hi, a gwybod ei chefnidir hi. A dyma lle mae clywed y recordiadau o'r hen gantorion, gyda'u dull cartrefol, o gymorth inni.

I orffen, ga' i nodi (neu, mewn ambell achos, ailnodi) ychydig o bwyntiau ymarferol ar gyfer y sawl sydd am ganu alawon gwerin, pa un ai i'w blesio'i hunan ynteu i bwrpas cystadlu.

1. Gwnewch hyn i ddechrau: dewiswch yn dda. Os mai dawn dweud stori sy gyda chi — fel oedd gan y rhan fwyaf o'r hen gantorion y soniais i amdany'n nhw — dewiswch faled. A dyna chi hanner y ffordd at ei chyflwyno hi'n effeithiol; dim ond eich bod chi'n *canu*'r gân, yn hytrach na dweud y geiriau yn unig. Mae yna ddigon o amrywiaeth caneun ar gyfer pob math o gymeriad. Mae'r dewis yn gyfoethog. Unpeth arall: os ydychi'n ddyn, cenwch gân i ddyn, ac nid cân sy'n fwy priodol i ferch — mae'r cam yma'n cael ei wneud yn aml iawn. Mater oed, hefyd. Yn aml iawn fe glywson ni blant — merched bach o dan ddeuddeg oed neu lai — yn canu cân fel "Hiraeth". Wel, dyna ddewisiad annoeth, yntê?
2. Wedi'r dewis, ceisio deall y gân yn fanylach, a dod i wybod am ei chefnidir hi. I'r cyfeiriad ola' mae yna gyfoeth o wybodaeth wedi ymddangos yng Nghylchgrawn y Gymdeithas, yn y nodiadau sydd islaw'r caneun yno.
3. Canu a chyflwyno, wedyn, yn gwbl naturiol a diymdrech. "Dweud" — "siarad", os mynnwch chi — y geiriau neu'r stori, gan bwyntio'r mynegiant yn ôl naws y gân, a gadael i'r alaw eich *dilyn* chi, fel petae — i *addurno*'ch stori chi. 'Roedd Lady Herbert Lewis yn sôn am yr alaw fel y gynffon sydd yn canlyn y briodferch, yn addurn arni wrth iddi symud. Ac os daw rhyw nodyn bach, rhyw *slur*, ychwanegol

i fewn wrth i chi fynegi'ch hun — rhywbeth nad yw e' ddim ar y copi — 'does dim gwahaniaeth. A ddylai ddim fod gwahaniaeth gan feirniad, chwaith — fydd e' ddim wedi sylwi, efallai, achos bod eich stori chi — y profiad personol 'rych chi'n ei gyfleu — mor ddiffuant nes i chi gael gafael ar y beirniad, fel ar eich cwmni. Mewn gwirionedd, efallai i chi ychwanegu at werth yr alaw, gyda'r *slur* anymwybodol a ddaeth i mewn — wedi datblygu'r alaw ymhellach. Yn y ffordd honno, wedi'r cwbl, y mae caneuon gwerin wedi tyfu a datblygu o'r naill genhedlaeth i'r llall.

4. Beth am gyfeiliant? Cwestiwn llog! "Digyfeiliant", meddai Lady Herbert Lewis, "yn bendant!" ond mi ddaru hithau gyfaddawdu, oherwydd fe gyfarfyddodd â Morfydd Llwyn Owen, un o gerddorion mwyaf Cymru. Wel, os cyfeiliant, rhaid iddo fod yn gwbl syml a naturiol, heb ddifetha dim ar sylrwydd a phrydferthwch yr alaw. I'r cyfeiriad hwn fe roes rhai cerddorion wasanaeth mawr; er enghraifft, W.S. Gwynn Williams, W. Hubert Davies, E.T. Davies, Morfydd Llwyn Owen a D. Vaughan Thomas.

Mae rhai caneuon nad yn nhw ddim yn galw am gyfeiliant o gwbl, ac sy'n cael eu sbwylio wrth roi cyfeiliant iddyn' nhw. Mae yna ambell un hefyd nad yw hi ddim yn *haeddu* cyfeiliant, o safbwynt ei gwerth cerddorol hi — fel, er enghraifft, "O! Felly'n Wir", y gân fach lofft-stabal honno o sir Benfro.

O ran offer cyfeilio, 'does dim gwahaniaeth gen i. Y piano, os mynnwch chi. Mae yna rai yn erbyn y gitâr ond 'dw i'n meddwl fod y gitâr yn offeryn bach ardderchog i ganu alaw werin iddo. Y peth pwysig, ymhob achos, ydy peidio â gorlwytho'r cyfeiliannau, gan anwybyddu sylmler yr alaw wreiddiol.

[The above is adapted from a talk delivered by our current President during the weekend course of the Society in Swansea in 1968. A recording of the original talk is contained in tapes nos. B657-8 in the sound archives of the Welsh Folk Museum.]

The initial point stressed is that the author, despite his life-long experience of Welsh folk song, disclaims any authority as a formal "teacher" of folk song presentation. While the stage performance of art song is governed by acknowledged standards and "rules", part of which are the composer's directives as set on paper, folk song remains free of equivalent guidelines and its mode of presentation should reflect, primarily, the personal choice of the individual singer. Such, after all, was traditionally the case with songs of oral transmission, subject as they were to constant adaptation and variation. Where a folk song is learnt — as so often nowadays — from a printed source, the same individual freedom of expression should be allowed to operate.

An essential aid, it is argued, in establishing closer rapport with the song is to acquaint oneself with its traditional social background. Its actual presentation needs to be sincere, and free of ostentation. Musical technicalities as such must not be allowed to command undue attention — the singer's main consideration should be to present the story or mood, while the music should synchronise with it naturally, almost unconsciously. (It is significant that successful traditional singers such as Robert Roberts, John Thomas and Ben Phillips were all captivating story-tellers in speech as well as song.) While a fine voice, good intonation, controlled phrasing and the like are firm advantages to a singer of folk song, the first requirement is to be able to enter into and convey the experience and atmosphere of the song itself.

In closing, the talk (in addition to reiterating some points made earlier) emphasises the importance of selecting song-material appropriate to the individual singer and, in considering the possible addition of instrumental accompaniment, opts for freedom of choice — at the same time stressing that accompaniments must not overbalance the basic folk-melody.

Readers who would like to find a discussion of the same topic in English are recommended to turn to Patrick Shuldham-Shaw's balanced and practical "Folk Song and the Concert Singer" in the Journal of the International Folk Music Council, IV (1952), 42-44. Ed.]

DELWEDDAU'R CANU GWERIN
(The Imagery of Folk Song)

E.G. Millward

Difyrrwch Teuluaid oedd yr enw cyntaf y bwriadodd Huw Jones, Llangwm, ei roi ar ei ail gasgliad o gerddi'r beirdd Cymraeg. Yn sicr, difyrru oedd prif amcan Lewis Morris wrth gynnwys ei gerdd 'Caniad Melinydd Meirion' yn y gyfrol. Ymddengys na welodd T.R. Roberts (Asaph) ddim yn y gân hon i beri iddo ei dosbarthu gyda'r cerddi 'anllad' o waith Lewis yn ei gyfrol *Y Monwyson*, er bod y prydych wedi rhoi rhybudd awgrymog ar ddechrau'r gerdd y byddai'n arlwyio difyrrwch o fath arbennig iawn o flaen ei ddarllenwyr:

Fe fyddai'r hen Brydyddion,
Yn canu ar Ddamhegion;
Edrychwch Gartref, bod ag un,
Oes yma run yr awron.

Chwilio am wers foesol a wnaeth Asaph ac anwybyddu'r is-deitl: "Wrote on occasion of a very old Man's intending to marry a very young Woman." Yr hen ŵr hwn, meddir, oedd tad Lewis ei hun. Rhaid na ddeallodd Asaph ychwaith y defnydd 'damhegol' o dermau crefft y melinydd sy'n troi hanes yr hen felinydd a'i felin newydd yn hanes hen ŵr a briododd wraig ifanc. Try'r termau technegol, felly, yn ddelweddaeth serch ac y mae'r gerdd hon i'r melinydd yn enghraifft dda o'r defnydd o *lingua franca* serch a oedd mor gyffredin yn y canu poblogaidd Saesneg yng nghyfnod Lewis Morris a chyn hynny. Tybiaf mai i gyfeiriad y beirdd hyn y dylid edrych wrth ystyried 'Caniad Melinydd Meirion', nid i gyfeiriad yr 'hen brydyddion' Cymraeg. Gwyddai Lewis Morris, mae'n siŵr, am y cysylltiad traddodiadol rhwng y melinydd a maswedd, cysylltiad y gellir ei olrhain yn ôl i'r 'Reeve's Tale' gan Chaucer ac i ffynonellau'r chwedl honno. Ni ellir amau ychwaith na wyddai am y baledi Cymraeg a Saesneg a'r caneuon gwerin poblogaidd i'r melinydd fel gwrthrych digrifwch a dychan. Nid oedd ball ar ddychymyg y beirdd gwerinol hyn wrth gyfleu serch llawen, digywilydd, yn nhermau'r amrywiol grefftau y ceir rhestr gyfleus ohonynt yn 'A Ballad of All the Trades' neu 'The Jolly Trades-Men' a chan Dwm o'r Nant yn ei anterliwt *Tri Chryfion Byd* mewn cyd-destun arall. Digon deheuig hefyd ydyw'r modd y rhydd Lewis Morris ystyr rywiol i eirfa dechnegol gwaith y melinydd, er y gallasai'r gân fod yn fyrrach ac yn gynilach, fel yr awgrymodd Asaph:

32.

Roedd hon yn wyllt anianol,
A'i Gwerthdy yn ei chanol;
(Nid felly'r Felin hen, oedd wan,)
Ond taro'n annaturiol.

35.

Pan ae fe i geisio'n llawen,
Roi ychydig yn ei Hopbren,
Hi roe iddo 'sgwd i eitha'r llawr;
Roedd honno'n fawr ei hangen.

40.

Ar felin wenn aflonydd,
A droe o gwrr bwygilydd,
A'i Chlap yn curo Ddydd a Nos,
Chwi a'i clywech hi dros y Gwledydd.

42.

Roedd eisiau cant o bethau,
Gwerthydoedd a Choccysau,
A Phin ei Phaladr aeth yn fain,
Rhaid cael y rhain yn ddïau.

Aeth llawer o grefftau'r gymdeithas amaethyddol yn angof gyda'r Chwyldro Diwydiannol ond crewyd rhai newydd y gallai'r prydyddion poblogaidd fanteisio arnynt. Enghraifft gymharol gynnar (ond heb fod mor gywrain) o drosi gwaith ac offer y mwynwr yn y ffordd yma yw'r 'Penhillion ar fesur Truban sef Cyffes Merch Ifanc' (NLW 346, 170) gan John Jones, Llanddeiniolen, a ganai yn y mesurau caeth a rhydd yn ail hanner y ddeunawfed ganrif:

Mae gantho Ordd ac Ebill
Un fath a Me'ners erill
Mi fedrwn ddwedyd fel y gwnaeth
O dyllu ar draeth yn drythill.

Yn 'Cerdd y Mynawyd' (*Dewisol Ganiadau yr Oes Hon*, 155) dewisodd W.W. (William Wynn, yn ôl pob tebyg) arfer troiad mwy traddodiadol, sef mynawyd y crydd a ddefnyddasid fel symbol fasweddol er yr Oesau Canol:

Ceiff ynte ledr hyfryd,
A gwrychyn ar ei bwyntryd,
A llawer peth heblaw y rhai'n
Ceiff gennyf wain mynawyd.

Cais digon trwsogl i ganu fel hyn gan ddefnyddio termau crefft y pannwr yw 'Hanes Pannwr Aberdeunant ar Lêf Caerwynt' gan John Powel, Llan-sannan (NLW 562, 210), a fu farw yn 1767. Cefndir y canu hwn, wrth gwrs, oedd y bywyd gwledig a phwysigrwydd ffrwythlondeb y tir yn y gymdeithas wledig. Gweithgareddau cwbl hanfodol i barhad y gymdeithas hon oedd troi'r tir, hau a medi. Naturiol, felly, oedd defnyddio'r gweithgareddau hyn ac eraill o grefftau'r dyn gwledig yn drosiadau serch. Gwaith dynion oedd aredig a hau ac ymarfer y crefftau a nodwyd. Dyma'r wedd wrywaidd, ymosodol, ar thema ffrwythlondeb yn y canu serch trosiadol; fe'i ceir mewn caneuon adnabyddus fel 'Buxom Lass', 'The Little Farm or the Weary Ploughman', 'Cupid the Ploughboy', 'The Mower', ac yn y blaen. Ond nid oedd y gŵr yn fuddugoliaethus ym mhob anturiaeth serch, fel y dengys caneuon o deip 'A creature ffor ffeature' (a gynhwyswyd gan Percy yn *Reliques of Ancient English Poetry*) neu 'the husband with no courage'. I'r dosbarth hwn y perthyn y 'Dyriau ar y mesur Bloda yr Gogledd' a welir yn *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi*, 74-5. Amharod yw'r llanc yn yr ymgom hon i drin tir y 'llangces lysti', er ei bod hi ar delerau ti a thithau erbyn y pumed pennill ac yntau'n dal i lechu y tu ôl i'r 'chi' parchus. Disgrifir methiant y 'llange diweddar' yn fyw trwy drosiad i swch:

mae fy swch os coeliwch gwengu
yn un glwudan eto heb gledu
a mina sudd yn llanc diweddar
i awch dirio at eich daiar
i ymgemio yn gymmar
rhag i chwi hogan chware yn hagar.

Ar y llaw arall, y llencyn sydd yn lysti yng nghân boblogaidd ddiweddarach Jac Glan-y-gors, 'Cerdd Miss Morgans fawr'. Yma, mae'r *double entendre* yn ymwneud â gwaith y llaethdy. Fe'i gwerthfawrogydd yn llawn, mae'n amlwg, gan Garneddog yn ei ddetholiad *Gwaith Glan-y-Gors* (Cyfres y Fil), gan mai'r tri phennill cyntaf yn unig a gynhwyswyd ganddo! Yn y pedwerydd pennill, sonnir am gymwysterau Siôn fel 'corddwr':

'Roedd ganddi'n mysy y gweision
Un Siôn lencyn ffraeth,
Fe fyddai'n helpu'r merched mwyn
I gorddi a hidlo'r llaeth;

'Roedd Siôn o lun yn eithaf dyn,
Ac wedi tyfu'n llencyn lysti,
A chanddo fe 'roedd hynod ffordd
I yrru'r ordd i gorddi.
Whack fal, etc.

Am y fuddai gnoc y sonnir yma, wrth gwrs, ac y mae disgrifiad Hugh Evans ohoni yn *Cwm Eithin* yn brawf digonol o'i haddaster fel trosiad serch. Ni all Miss Morgans lai na phriodi Siôn ar ôl sylwi'n werthfawrogol ar ei 'hynod ffordd' o weithio, ond priodas fer fu hi a hithau'n bump a thrigain oed:

'Roedd Siôn ar ôl priodi
Yn corddi fel y cawr,
Nes daeth yr angau'n ddistaw bach
I nôl Miss Morgans fawr;
Cadd Siôn yn wir y tai a'r tir,
Ac ailbriododd Cadi Dafydd,
A chorddi fyth o hyd mae Siôn
Ac yn ei fuddai newydd.
Whack fal, etc.

Ceir cyffyrddiad arall o ddelweddaeth serch y llaethdy yn 'Bessi o Lantantffraid', lle sonnir am gefnder Dic Siôn Dafydd yn llygadu Bessie:

Pan welodd e Fessi efo'i chunog
Yr oedd ef yn chwennych ei thrin.

Fel y dangosodd Twm o'r Nant yn ei anterliwt 'Pedair Colofn Gwladwr-iaeth', gwyddai yntau am arwyddocâd y gunnog:

Ffalsder, anlladrwydd lliidiog,
Ydyw godro heibio'r gunog.¹

'Medi a lladd gwair' yw arbenigrwydd Siencyn mewn cerdd arall gan Jac Glan-y-gors, 'Priodas Siencyn Morgan, sef Cân Newydd, yn gosod allan ddull priodasau yng Nghymru'. Gan fod Carneddog wedi hepgor y pennill hwn, da fyddai ei ddyfynnu yma:

'Roedd Siencyn am chwareu pêl
Yn fawr ei glod trwy Gymru,
A gwasgu doed a ddêl
Y merched ar y gwely;

Am fedi a lladd gwair
'Roedd Siencyn 'n eitha gweithiwr,
Priododd ddydd Gŵyl Fair
A Siani Siôn y Gwthiwr.

Y gwir yw fod y delweddau hyn yn ymgynnig yn amlwg i'r prydydd effro (fel i'r seicolegydd Ffreudaidd) pa le bynnag yr edrychai. Gallai fod yn sicr hefyd na fyddai'r un ohonynt yn mynd heibio heb ei deall a'i gwerth-fawrogi'n llawn gan y gynulleidfa; yn y fan hon y ceir rhan fawr o apêl uniongyrchol y canu gwerin poblogaidd. Gellid meddwl fod rhialtwch cynyddol wrth wrando ar y pennill hwn (*Hen Benillion*, rhif 510) hyd nes cyrraedd trosiad adnabyddus y clo a'r agoriad — a gafodd gylchrediad helaeth yn y gân 'Strawberry Fair' — a'r 'esboniad' buddugoliaethus yn y ddwy linell olaf:

Megis cloch heb iddi dafod,
Megis rhosyn heb ei ganfod,
Megis 'fallen heb ei himpio,
Megis clo heb 'goriad iddo.
Fel hyn mae'r ferch nad ydyw'n briod,
Na rhoi i undyn ei morwyndod.

A dyna'r ergyd yn un o'r penillion i Farged ach Ifan:

Mae gan Marged fwyn ach Ifan
Delyn fawr a thelyn fechan;
Un i ganu yng Nghaernarfon
A'r llall i gadw'r gŵr yn fodlon.

Tynnodd James Reeves sylw at y cyswllt agos yn y canu gwerin Saesneg rhwng pleser rhywiol a'r hyfrydwch a geir wrth wrando ar gerddoriaeth. Dyma'r profiad a fynegwyd yn yr hen benillion gan y merched a'r dynion fel ei gilydd:

Llawer gwaith y bu fy mwriad
Gael telynor imi'n gariad,
Gan felysed sŵn y tanne,
Gyda'r hwyr a chyda'r bore.

Ac yn gliriach fyth, mewn pennill cyfoethog o erotig:

Tebyg ydyw'r delyn dyner
I ferch wen a'i chnawd melysber;
Wrth ei theimlo mewn cyfrinach,
Fe ddaw honno'n fwynach, fwynach.

O droi at yr hen benillion, deuir at yr agwedd hyfrytaf, o bosibl, ar y damhegu serch yn y canu gwerin, sef iaith y blodau. Os gweithgareddau sylfaenol hwsmonaeth a gynrychiolai'r agwedd wrywaidd yn y canu serch poblogaidd, mynegid y wedd fenywaidd yn iaith y blodau. Gwaith merched oedd casglu blodau a brwyn. Symbol o ymserchu annoeth neu ryfygus yw'r casglu hwn yn y canu Saesneg a dwyséir effaith y symbolaeth gan yr ymdeimlad fod prydferthwch merched, fel harddwch blodau, yn mynd heibio'n drist o gyflym. Dyry James Reeves esiaml ragorol o hyn oll yn ei gasgliad *The Everlasting Circle*:

Handsome men are out of fashion,
Maidens' beauties soon decay.
You pick a flower of summer morning,
Before the evening it will fade away.

First comes the oxlip, then the cruel;
Then the pink and then the may,
Then comes a new love, then comes a true love,
And so we pass our time away.

Yr oedd profiad y bardd Cymraeg, mae'n ymddangos, yn ddwysach byth:

Mynd i'r ardd i dorri pwysi,
Pasio'r lafant, pasio'r lili,
Pasio'r pincs a'r rhosys cochion
Torri pwysi o ddanadl poethion.

Y mae'r ardd, hefyd, yn hen symbol o fangre serch. Fe'i sancteiddiwyd hi yn ei chyswllt â'r Forwyn Fair fel 'gardd gauedig' caniad Solomon a diddorol sylwi ar y modd yr ymatebodd Ann Griffiths yn reddfodl iddi yn un o'i llythyrau at John Hughes. Ond nid y cysylltiadau crefyddol a geir gan feirdd yr hen benillion:

Mae blodau ffeind yng ngardd y gardner,
Ac enw'r rhain yw caru'n ofer.
Torrwch imi bwysi o'r rheini
Fel bwy'n cofio cywir garu.

Mewn caneuon fel 'Gathering Rushes' a 'Three Maids a Rushing', symbol anturiaeth bowld y ferch yw brwyna. Dyna a geir yn llinellau agoriadol gân fer a gopiodd Richard Morris (*Llawysgrif Richard Morris o Gerddi*, 117):

Am fi yn brwuna doeth mab atta
gofynnodd imi gae o fy ngharu
cewch yn ddifai os oes gynnoch i dda.

Yma, fel yn y canu Saesneg, dangos mai serch yw'r testun ydyw unig swyddogaeth y gair cōd 'brwyna'; nid yw'n ddim namyn trosiad rhagarweiniol ac nis datblygir o gwbl. Ond megis yn y canu Saesneg eto, y mae symbolaeth y blodau yn hanfodol i thema'r canu Cymraeg. Cymerer y pennill cyfarwydd hwn:

Ar lan y môr mae carreg wastad,
Lle bŵm yn siarad gair â'm cariad,
O amgylch hon fe dyf y lili
Ac ambell gangen o rosmari.

Gwyddai beirdd yr hen benillion am arwyddocâd hynafol y pren bedwen — 'Dacw'r llwyn o fedw nwyfus', meddai un ohonynt — a gwyddent hefyd, mae'n amlwg, am yr amryfal draddodiadau a gysylltid er cyn cof â phlanhigion a blodau. Nid damweiniol mo'r dewis o flodau yn y pennill a ddyfynnwyd. Dechreuwn gyda'r rhosmari. Arwydd o gofio yw'r planhigyn hwn, ac o'r herwydd, o ffyddlondeb. Fe gofir am eiriau Ophelia wrth Hamlet: 'There's rosemary, that's for remembrance; pray love, remember ...' O'i gael yn y tusw priodasol, arwyddai gofio am gartref ac anwyliaid. Wedyn, planhigyn bythwyrdd ydyw a symbol o anfarwoldeb yr enaid. Mewn angladdau yng Nghymru gynt, fe'i teflid i'r bedd i ddangos ffydd yn yr atgyfodiad. Dengys cerdd Robert Herrick, 'Rosemarie Branch', fod y Saeson yn credu pethau tebyg:

Grow for two ends, it matters not at all,
Be't for my *Bridall* or my *Buriall*.

Diddorol, hefyd, yw tarddiad poblogaidd yr enw. Credid ei fod wedi tarddu o'r Lladin, 'ros-marinus', gwlith y môr. Fe'i cysylltid, felly, â Fenws, a aned o wllith y môr, a gellid ei ddefnyddio fel swyn serch. Ar ben hyn oll, dywedid fod rhosmari'n tyfu orau yn sŵn y môr ac ar fedd merch rinweddol a'i fod yn amddiffyniad yn erbyn ysbrydion.

Am y lili, symbol o sancteiddrwydd, gwryfyddod a phurdeb oedd hi yn yr Oesau Canol. Arwyddai'r lili wen, yn arbennig, wryfyddod a diniweidrwydd y Forwyn Fair. Fe'i gwelir yn aml yng ngwaith artistiaid y Dadeni a ddarluniai gyfarchiad neu ymddangosiad Gabriel i Fair. Yn y darluniau hyn, cyfunir ffrwythlondeb a gwryfyddod Mair yn symbolaeth y blodyn. Yr oedd y lili hithau yn boblogaidd mewn priodasau ac angladdau — fel arwydd o ddiniweidrwydd a gwryfyddod yn y cyntaf ac fel symbol o'r enaid yn dianc yn rhydd o'i bechodau yn yr ail. Gwyddys am yr amrywiad ar drydedd linell y pennill: 'Oddeutu hon mae teim yn tyfu'. Yn y canu Saesneg yr oedd dwyn teim yn gyfystyr â dwyn gwryfyddod merch:

For it's once I had old thyme enough
To flourish both by night and day
Till it chanced there came along a false young man
And he stole all my old thyme away.

Cysylltir y planhigyn hwn eto â Fenws. Ond yr oedd teim yn nodedig, hefyd, oherwydd ei gysylltiad â marwolaeth. Yng Nghymru fe'i plennid ar feddau a chredid fod eneidiau'r meirwon yn aros ym mlodau'r teim. Yn Lloegr, meddir, cysylltid aroglau'r teim ag eneidiau pobl a lofruddiwyd. Yng ngardd y carwr siomedig gwelsom grybwyll y lafant a'r pincs. Yr oedd unrhyw beth a gysylltid â lafant yn werthfawr, yn beth i'w brisio'n fawr, a gallai pincs olygu cwrteisi a lledneisrwydd. Sonnir hefyd am y rhosys cochion ac fe'u ceir eto mewn pennill adnabyddus arall:

Dacw rosys ar y bryn,
Rhosyn coch a rhosyn gwyn.
Rhosyn coch a gyll ei blodau,
Rhosyn gwyn gymeraf finnau.

Ni wn pa mor hen yw'r pennill amwys hwn ac anodd dod i'r casgliad rhyddieithol mai cefndir Rhyfel y Rhosynnau sydd iddo. Wedi'r cyfan tynnu'r rhosyn y mae'r bardd. Y mae i'r rhosyn ei gysylltiadau paganaidd yn ogystal â Christnogol. Rhaid oedd cysylltu brenhines y blodau â'r anwylaf o ferched, y Forwyn Fair. Hi oedd y Rhosyn Cyfriniol. Arwyddai lliw cyfoethog y rhosyn coch y cariad dwfn a fynegodd Mair pan oedd hi ar y ddaear. Ond cyn hyn, ceid lle pwysig i'r rhosyn yn y fytholeg baganaidd. Gwaed Fenws a roddodd ei liw i'r rhosyn coch neu Giwpid, Eros, a roes ei liw iddo. Fel y canodd Herrick, unwaith yn rhagor:

'Tis said, as *Cupid* danc't among
The *Gods*, he down the Nectar flung:
Which, on the *White Rose* being shed,
Made it for ever after red.

Hwyrach mai gweddillion y cyswllt â serch a welir yn yr hen bennill hwn; symbol o nwyd yw blagur y rhosyn coch yn y canu gwerin Saesneg. Yn Sir Forgannwg, plennid rhosyn coch ar fedd cariadferch a rhosyn gwyn ar fedd gwyrif. Mewn llawer rhan o Ewrop argoel ddrwg oedd gweld petalau'r rhosyn coch wedi'u gwasgaru ar hyd y llawr. Ymddengys fod y bardd yn dewis rhwng dau gariad yn y pennill hwn a cheisir mynegi hynny mewn termau traddodiadol, er bod ei wybodaeth, efallai, yn anghyflawn ac yn gymysgelyd.

Defnyddid adar hefyd yn drosiadau serch. Cyfeiriodd Mr. Brinley Rees

at y llamysten fel 'math o symbol am ferch' (*Dulliau'r Canu Rhydd*, 62) mewn cerdd a gopïwyd yn y ddeunawfed ganrif. Fersiwn arall o'r un gerdd yw rhif 380 yn *Hen Benillion*:

'Roeddwn hefo'r hwyr yn rhodio
Gerddi gwyrddion i'm comfforddio,
Uwch fy mhen clywn fwyn lymysten,
Oer yw'r loes, beraidd foes yn uchel ochen.

Nesu wnes yn ewyllysgar,
At fwyn ei [l]lais a main ei llafar, ...

Fel y dywed Mr. Rees, cwyno i'w chymar ei thwylllo a'i gadael y mae'r llamysten. Yn y gân Saesneg boblogaidd 'The Grey Hawk', saif y gosog am ferch anffyddlon. Yn ddiweddarach, aeth y symbolaeth yn aneglur a'r dyn oedd y gwyddwch mewn amryw o fersiynau. Gwahanol iawn yw'r ystyron ffigurol yng ngwaith Beirdd yr Uchelwyr a ddyry *Geiriadur Prifysgol Cymru* dan 'gosog', sef 'campwr gwych', 'milwr dewr' a 'gŵr bonheddig urddasol'. Yma eto, onid dilyn esiampl a welwyd yn y canu Saesneg a wnaeth y bardd o Gymro?

Ni fynnwn ddadlau fod y beirdd Cymraeg yn gwybod am bob un o'r coelion ynglŷn â blodau y rhoddwyd detholiad ohonynt. Yn sicr, dirywiodd y gynhygaeth draddodiadol hon o'r ddeunawfed ganrif ymlaen. Gyda'r Diwygiad Methodistaidd cymerodd y ddelweddaeth Feiblaidd le'r gyfeiriadaeth baganaidd a Phabyddol fel gwybodaeth gyfarwydd, gyffredinol. Yna, pan ddaeth y Chwyldro Diwydiannol yn ei rym, torrwyd y cysylltiad bywiol â'r tir a'r bywyd gwledig a dirywiodd y gyfeiriadaeth draddodiadol yn gyflym iawn. Erbyn traean cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan ganodd William Davies (Grawerth) i'w gariad: 'Mae'n goch fel y rhosyn, mae'n wen fel y lili,' nid yw'r cyffelybiaethau hyn ond rhan o stoc ystrydebol y prydidd, gweddillion tila hen draddodiad a fu gynt yn gyfoethog ei gynnwys a'i gysylltiadau. Ond y mae'n eglur fod y defnydd o iaith y blodau yn yr hen benillion yn gwbl fwrriadus. Rhydd y gyfeiriadaeth hon haen arall o ystyr i benillion a ymddengys, ar yr olwg gyntaf, yn syml ac yn gatalogaidd. Cafodd *lingua* serch a gysylltid â chrefftau dyn oes feithach. Cadwyd rhai o'r hen grefftau yn fyw tan yn ddiweddar a gellid trosglwyddo'r symbolaeth hon i beiriannau ac offer y gymdeithas ddiwydiannol newydd. Yng Nghymru, fodd bynnag, camp oedd dianc rhag gafael y Diwygiad Methodistaidd a chrefydd sefydliadol, bwerus, y ganrif ddiwethaf, ac y mae'r canu hwn yn brinnach o lawer yn Gymraeg. Hyd y gwn i, ni cheir dim tebyg i'r gân dra chywrair hŏnno, 'The Bury New Loom' (1804) a drafodir gan Martin Vicinus yn *The Industrial Muse* (1974).

Dywedwyd ar ddechrau'r nodiadau hyn mai 'serch llawen, digywilydd'

a fynegid trwy gyfrwng delweddaeth crefftau'r gymdeithas wledig. Rhaid pwysleisio hyn, oherwydd yr elfen lawen, gymdeithasol, mi gredaf, sy'n gwahaniaethu'r canu maswedd oddi wrth ganu gwir anllad, di-hiwmor o drythyll. Dywedwyd hefyd mai ffynhonnell y gwir ganu maswedd oedd pwysigrwydd hanfodol ffrwythlondeb dyn a'r tir i barhad bywyd a'r awydd i ddathlu'r ffrwythlondeb hwnnw. Gellir dadlau, fel y gwna James Reeves ac eraill, fod y canu hwn yn rhoi ymdeimlad, dros dro, o ryddid oddi wrth gyfyngiadau gwarediddiad mewn oesoedd diweddarach ond bod y bardd, er hynny, yn ymarfer y rhyddid hwnnw mewn termau trosiadol er mwyn difyrru heb darfu'n ormodol ar deimladau'r gwrandawyr. Hynny yw, yr oedd defnyddio 'geiriau teg' y crefftau ynddo'i hun yn arwydd o ledneisrwydd. Yr oedd i'r canu maswedd, felly, swyddogaeth bendant ollyngol (*cathartic*). Weithiau, wrth gwrs, gall medrusrwydd y canu trosiadol hwn synnu neu hyd yn oed beri rhywfaint o sioc ac y mae hyn oll yn rhan o'r broses o ollyngdod. Mynn E.A.M. Colman fod llenyddiaeth fasweddol o angenrheidrwydd yn cynnwys elfen sioclyd. Ond dywed hefyd: 'Bawdy, as distinct from straightforward sensuality, always partakes of the comic'³ ac ychwanega fod gwir faswedd — o'i gyferbynnu â'r anllad — yn anuniongyrchol, yn drosiadol ac yn gyfeiriadol.

Y mae A.L. Lloyd yntau yn gwahaniaethu'n ofalus rhwng llên borno-graffaidd, 'crude, hateful, gruelling to listen to', a'r llenyddiaeth fasweddus, draddodiadol, 'with its clean joy and acceptance of the realities of virginity and desire, passion and pregnancy, [belonging] to a country people living an integrated deeply-communal life, in tune with natural events.'⁴ Wrth i gymdeithas ymbellhau oddi wrth y tir, deuai'r wedd borno-graffaidd yn amlycach. Yn wir, gwelir y dirywiad hwn yn llawer o gynnyrch Lewis Morris a oedd yn aml yn fwy dyledus i lenyddiaeth y stryd nag i lenyddiaeth y wlad. Dywed golygyddion *The Common Muse* wrthym fod cefnu ar y canu maswedd traddodiadol wedi ildio'r maes i ddwy gainc sy'n gyfarwydd i ni yng Nghymru: y cerddi sentimental a'r canu a ganol-bwyntiai ar y *macabre* a digwyddiadau echryslon. Ond nid dyma'r lle i drafod y canu hwnnw.

¹ Cymh. James Reeves, *The Idiom of the People* (1958), 209.

² Ar ladd gwair fel trosiad serch gw. A.L. Lloyd, *Folk Song in England* (1975), 188; D. Roy Saer,

³ *Caneuon Llafar Gwlad, Cyfrol I* (1974), 34, 61, ynghyd â'i ymdriniaeth ag ystyr trosiadol termau'r gwaith glo yn y gân 'Shacki Newi Ddwad' yn *Canu Gwerin, I* (1978), 34-6.

⁴ E.A.M. Colman, *The Dramatic Use of Bawdy in Shakespeare* (1974), 3.

A.L. Lloyd, op. cit., 185.

[The above article fills a gap in Welsh literary studies through examining the use of an erotic lingua franca in Welsh-language folk song. Despite the relative scarcity of evidence still extant in this field, E.G. Millward here discusses numerous relevant song-specimens.

Particular attention is given to sexual metaphor based on the tools and skills of manual crafts, and the examples of verse (from the 18th century or earlier) that are referred to or quoted above draw upon a variety of vocational tasks: milling, mining, shoemaking, fulling, ploughing, milking, dairying and hay-mowing.

Following a brief look at the erotically-employed imagery of lock-and-key and harp, the article — with reference mainly to the traditional floater-stanzas known as "Hen Benillion" — turns to the love-and-courtship significance of flower-picking and rush-gathering (and also of birds such as hawk and goshawk) as well as the symbolic role of flowers and plants (rosemary, lily, thyme, lavender, pink and rose) in native song.

The utilisation of traditional flower-language in Welsh verse, it is argued, decreased rapidly in the face of both the Methodist religious revival and the Industrial Revolution, which arrived during the 18th and 19th centuries respectively. Again, in chapel-controlled Wales, the old manual-craft imagery was barely at all adapted into the newly-developed context of industrial society.

In closing, the article reiterates the distinction made by James Reeves (in *The Everlasting Circle*, 1960) and others between bawdy and obscene song. Ed.]



Tal Griffith, c. 1950-55

Y Golygydd

I'r mwyafrif o aelodau'n Cymdeithas, hwyrach mai anodd yw coelio bod o hyd ambell gasgliad o ganeuon gwerin Cymraeg yn dod i olau dydd yn lled annisgwyl, wedi llechu'n dawel mewn rhyw gilfach neu'i gilydd am flynydd-oedd. Ond fe ddeil hynny i ddigwydd, diolch i'r Drefn.

Ar benwythnos ym mis Ebrill y llynedd dyma wraig a fu'n byw ers chwarter canrif yn Llundain yn taro llyfr ysgrifennu i mewn yn Amgueddfa Werin Cymru, gan ei gyflwyno yn rhodd i'r sefydliad. Y wraig oedd Mrs. Euronwy Karlsen, merch i'r diweddar Tal Griffith, Pwllheli, a'r hyn a geir yn y llyfr yw ei gasgliad personol ef o "ganeuon cefn gwlad", fel y dewisodd eu galw.

§

Ganed Tal (Taliesyn) Griffith yn 1901 yn Llithfaen, Llŷn. Yno yr oedd ei dad, Hugh Griffith, yn brifathro'r ysgol leol.

Diddordeb pennaf y tad fuasai cerddoriaeth. Sefydlodd ac arweiniodd Gôr Llithfaen, gan ennill cryn lwyddiant mewn eisteddfodau, a chyfrannodd yn helaeth o fewn i'r penrhyn fel hyfforddwr canu, arweinydd cymanfaeodd a beirniad eisteddfodol. (Arno, gweler yr ysgrif yn y gyfres "Ein Cerddorion" yn rhifyn Gorffennaf 1915 *Y Cerddor*.) Am ryw reswm, serch hynny, nid oedd o blaid i'w fab wneud ei yrfa ym myd cerddoriaeth a'r canlyniad, yn y pen draw, fu i Tal Griffith (fel ei fab ei hun, yn ddiweddar-ach) ddilyn galwedigaeth fel cyfrifydd. Cynhaliai swyddfa ym Mhwellheli, lle daeth i fyw yn lled fuan ar ôl priodi yn 1928.

Ni fedrai yntau, fodd bynnag, osgoi ymhél â cherddoriaeth. Yn wir, pan ddaeth yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1955 i Bwllheli, Tal Griffith a wnaed yn Gadeirydd ei Phwyllgor Cerdd (yn ogystal ag yn un o Is-Gadeiryddion ei Phwyllgor Gwaith). Ond gan laweroedd o bobl fe'i cofir yn arbennig fel arweinydd Côr Glannau Erch. Ef a gododd y côr hwnnw, yn gynnar yn y Pedwardegau, a daeth ei greadigaeth i amlygrwydd nid yn unig drwy rannau helaeth o sir Gaernarfon, lle bu'n cynnal cyngherddau yn ystod ac wedi'r Ail Ryfel Byd, ond hefyd yn gyffredinol ymhlith gwrandawyr darllediadau Cymraeg ar y radio, drwy gyfrwng y rhaglen enwog honno, "Noson Lawen".

Parti meibion oedd y côr, o tua deg ar hugain o aelodau. Canent yn lleisiau TTBB, a threfniannau cerddorol Tal Griffith ei hunan a berfformient cyn amled â pheidio. Fel arwyddgan i'r côr mabwysiadwyd "Yn Hogyn

Gyrru'r Wedd", dewis tra chymwys, o ystyried mai ffermwyr neu weision ffermydd Llŷn ac Eifionydd oedd y rhan fwyaf o'r cantorion. Naturiol hefyd fod "caneuon llofft stabal", gan gynnwys clasuron fel "Cerdd Bach-y-saint" a "Mochyn Carreg Plas", yn ganolog i'w *repertoire*. Yn wir, mae'n amlwg fod cyswllt agos rhwng rhaglen y côr a'r llyfr o "ganeuon cefn gwlad" sydd bellach yn Sain Ffagan. Maes arall y trôl'r côr ynddo ydoedd canu penillion: cymerodd Tal Griffith ddiddordeb brwd yn y gelfyddyd honno ac ymaelododd yng Nghymdeithas Gerdd Dant Cymru.

Daliodd Côr Glannau Erch ati i ganu hyd at tua 1958, pryd y bu'n rhaid rhoi'r gorau i'w weithgarwch yn wyneb gwaeledd yr arweinydd. Bregus, braidd, a fuasai ei iechyd ef o'i fabandod, pan gawsai *polio*, ac ym mis Hydref 1959 bu farw Tal Griffith ac yntau ond 58 oed, a rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent Penrhos, Pwllheli.

§

Erbyn heddiw fe geir ei lyfr, yn dwyn y rhif 2811, ymhlith y llawysgrifau sydd ar gadw yn Amgueddfa Werin Cymru. Llyfr ac iddo glawr coch, caled, ydyw a'r tu mewn i'w glawr blaen fe drawyd, yn syml, "Caneuon Cefn Gwlad" ynghyd â'r cofnod "Casglwyd gan Tal Griffith". Yn wynebu'r rhain, ar y tudalen cyntaf, gwelir cadwyn o dri englyn mawl a gyflwynwyd i Gôr Glannau Erch ar ôl darllediad ganddo o "Ganeuon Cefn Gwlad" ar y radio yn 1947. Yna daw'r caneuon.

Cynhwyswyd 41 ohonynt, gan lenwi hanner y llyfr (Gwag yw'r hanner arall). Yn llaw'r casglydd ei hunan y mae'r 31 cyntaf, tra bod y deg olaf yn llaw ei ferch. (Wedi marwolaeth ei thad, fe'u codwyd gan Mrs. Karlsen oddi ar fân bapurau rhyddion a adewsid ganddo ef y tu mewn i'r llyfr.) Yn achos y rhan fwyaf o'r caneuon, yr un yw'r patrwm cymen: teitl y gân, ei chyweirnod, ei halaw mewn Sol-ffa (sef y nodiant a arferai Tal Griffith), ei geiriau ac, i gloi, nodyn byr am gasglu neu am ffynhonnell y gân. Ger pob eitem, ac ar ddernyn o lawysgrif gerddoriaeth, fe ychwanegwyd yr alaw mewn Hen Nodiant gan Mrs. Karlsen. (Ar anogaeth ei thad astudiodd hithau gerddoriaeth a bu yn ei ddysgu fel athrawes ysgol wedi hynny.)

Yng nghefn y llyfr rhoir rhestr o'i holl gynnwys, a dadlennol o safbwynt aelodau Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru fydd atgynhyrchu'r rhestr honno'n llawn yn ein cylchgrawn ninnau, yn enwedig o gyplysu wrthi y mân nodiadau a ychwanegodd Tal Griffith ynglŷn â'r caneuon. (Oherwydd iddo ddileu'r gân a oedd yn wreiddiol yn dwyn y rhif 15, fe gyfleir ei rifau gwahanol ef mewn cromfachau ar ôl pob teitl o rif 15 ymlaen. Mewn bachau petryal fe gynhwysir sylwadau'r golygydd presennol neu, lle dynodir "EK", ychwanegiadau gan Mrs. Karlsen.)

1. MAEGEN I SWLLT. [Gweler cân rhif 1 isod.]
2. YR HOGEN GOCH. Canwyd i mi gan yr hen G.O. o Fourcrosses. Ceir chwaneg o'r penillion i orffen y gerdd yn y llyfr "Cerddi Cymru". [EK: 24:2:46]

3. YRAELWYD YN YR HAFOD. Clywyd gan Thomas John Roberts Pwllheli ddechrau 1945. Bu farw Mai 1945. Yr oedd ganddo stor o hen ganeuon. Gresyn iddo fynd oddiyma cyn cael cyfle i'w cofnodi.
4. GWERSI FY MAM. Cofnodwyd Ionawr 1945 fel y'i canwyd gan Thomas John Roberts Pwllheli — cof ganddo glywed Eheddydd Eifion yn ei chanu yn y tren o Benygroes i Lerpwl tua 1890 pan oedd ef (T.R.) ar ei ffordd i America i chwilio am waith.
5. Y CWBL YN EIDDO I MARI. Canwyd i mi gan fy hen gyfaill Owen Griffith 'Refail Bach Rhoshirwaen sydd wedi ymddiddori llawer mewn hen gerddi.
6. MARI! RHOWCH MORGAN ARTÂN. Hen alaw ar eiriau Mynyddog.
7. YR AFONIG AR EI THAITH. Geiriau y Parch Roger Edwards ganwyd flynyddau yn ol yn Llyn ac Eifionydd gan un enwog yn yr ardal — Owen Jones, Plasgwyn. Cofwyd hwynt a'r alaw gan fy hen ffrind annwyl, Gwynedd Davies gynt o Bencaenewydd yn Eifionydd a chofiais innau hwynt ar ei ôl. [EK: Ceir y gerdd yng nghasgliad T.A. Levi o Ganeuon Cymru a gyhoeddwyd yn 1896.]
8. YN HOGYN GYRRU'R WEDD. Alaw werin Sir ganwyd flynyddoedd yn ol ar yr hen eiriau yma. Mabwysiadwyd yr alaw a'r geiriau gan Gor Meibion Glannau Erch fel eu harwyddgan pan yn darlledu Caneuon Cefn Gwlad ar y B.B.C.
9. HEN FFON FY NAIN. Alaw ar yr hen eiriau genid gynt yn Nyffryn Nantlle. Canwyd imi gan Mr E.T. Roberts, Ysgolfeistr, Edern.
10. GWENNO FWYNGU. Alaw ar eiriau Mynyddog.
11. Y GWYDR GLAS. [Gweler cân rhif 2 isod.]
12. TRAFaeliais Y BYD. Hen gan for llongwyr Nefyn a oedd yn boblogaidd iawn flynyddoedd yn ôl.
13. BUGAIL HAFOD Y CWM.
14. LLONGAU MADOG.
15. AMBELL I GÂN (16). Trwy garedigrwydd Mr Sam Jones o'r BBC Bangor ar ôl darllediad o hen faledi Nos Sadržn Ebrill 10fed 1948.
16. YR HEN DINCAR (17) [= BACHGEN BACH O DINCER]. Can nonsens — a genid gan hen gerddorion crwydrol y ffeiriau — tebyg mai'r unig reswm am dani oedd tynnu sylw, a gwneud ei hun yn glywadwy uwch swm a miri'r ffair.
Cafwyd trwy garedigrwydd Mr Sam Jones BBC 10/4/48.
17. YR ENETH GLAF (18). Canwyd i mi gan fy ffrind Ellis Tudur Roberts Ysgolfeistr Edeyrn.
18. Y BWTHYN YNG NGHANOL Y WLAD (19). O gasgliad Mr Bob Owen, Croesor.
19. BOB YN AIL (20). Geiriau gan Derwenog. Clywyd 2/8/47 gan T.J. Williams o Lanartheney Sir Gaerfyrddin ar ei dro ym Mhwlheli.
20. MARI FACH FY NGHARIAD (21). Canwyd hon i mi gan Watcyn o Feirion ddiwrnod Eisteddfod Sir Gaernarfon (Ieuencid) yn 1946.
21. Y GWEITHIWR TLAWD (22). Canwyd i mi gan Dr O. Wynne Griffith Pwllheli. Ceir hi hefyd yn y llyfr gwerthfawr "Forty Welsh Traditional Tunes", fel y mae yma ag eithrio yr ail linell. Cof gan Dr Griffith glywed John Lloyd Factory Penprys Penreuchaf yn ei chanu iddo tua 1890 neu cyn hynny. Gweithiwr ar ochr y ffordd oedd John Lloyd a mynych y pasiai y Doctor ef ar ei daith yn ei waith fel meddyg.
22. Y LLEUEN (23). [Gweler cân rhif 3 isod.]
23. LIWSI (24). Hen gan ffair yn disgrifio bechgyn yn crwydro stryd y dref i chwilio am gariad — ond oherwydd swlledod ac ofn cyfarch y genethod yn ffendio trai arnynt beunydd.

Canwyd i mi gan Mrs James Evans Pwllheli 5/7/48 fel y cofiodd ei thad yn ei chanu.

24. Y GWAS A'R CEFFYL (25). [Gweler cân rhif 4 isod.]
25. YRASYN A FU FARW (26).
26. PENTRE BACH DRWS-COED (27). Canwyd i mi gan Mrs Sam Richards o Lanberis.
27. CÂN Y MUL (28). Canwyd i mi gan Mr Iorwerth Parry fel ei canwyd iddo gan ei dad Mr Parry Ysgolfeistr o Benygroes.
28. MYFI YW'R HOGYN GYRRU'R WE(DD) (29). Canwyd i mi gan Mr D.J. Thomas, aelod o Gor Glannau Erch — cof ganddo i'w ewyrth Mr Glanrafon Jones o Borthmadog ei chanu flynyddoedd yn ol. Ni wyddis ddim o'i hanes.
29. MARCHNAD CAERNARFON (30). Gan Dic Dywyll neu Bardd Gwagedd. Cefais y geiriau gan Mr R.W. Jones (Erfyl Fychan) Welshpool. Y mae 13 o benillion i'r gerdd i gyd, rhai o honynt efallai yn ddichwaeth.
Cefais yr alaw gan Mr Edwin Evans o Lanbrynmair a glywodd hen faledwyr yn ei chanu tua 1880.
30. BONHEDDWR MAWR O'R BALA (31). Cof cyntaf gennyf yw i fy nhad ei chanu i mi pan yn blentyn bychan yn Llithfaen. Ar ôl hynny clywais Evan Hughes y Gof yn ei chanu yn yr efail ym Mhencaenewydd. Bob tro pan yn chwythu'r tan torrai allan i ganu, a chadw'r amser hefo'r fegin. Aeth Evan Hughes oddiyma a llawer o'i ganeuon hefo fo, heb eu cofnodi.
Anghofiais y geiriau i gyd ond y tair llinell gyntaf o'r pennill cyntaf. Ymholais yn "Y Cymro" a chefais y gerdd yn gyfan. Bu trefniant o'r alaw Ellmyng flynyddoedd yn ol i leisiau meibion gan Owain Alaw. Gwelais ef yn Almanac y Miloedd am y flwyddyn 1890.
31. YR AFR (32). [Gweler MAEGAFR ETO, sef cân rhif 5 isod.]
32. YNG NGLAN Y MÔR (33). [Gweler YNG NGLAN Y MÔR MAE GWIN AR WERTH, sef cân rhif 6 isod]
33. YR HEN GANFED (34). Hen alaw a glywyd yn Uwchmynydd 7:2:45. (Unrhyw eiriau mesur hir.)
34. CYCHWYNNAI'R MORWR LLAWEN (35). ["Di-Enw" a nodir yn llyfr TG.] Canwyd gan Mrs Jones, Bryn Berllan, Pwllheli, Chwef. 1946 — fel y cofiodd hi Ap Glaslyn yn ei chanu.
35. Y "LIGHT DRAGOON" (36) [= FFARWÉL FO I DRE CAERNARFON LON]. Clywyd gan Cynan. 25/2/45.
36. FFARWÉL I BENCAENEWYDD (37).
37. PLE'R WYT TI, MARGED MORGAN? (38).
38. MOCHYN CARREG PLAS (39).
39. SADWRN TÂL BETHESDA (40).
40. Y CWRDD TE CYMREIG (41). Clywyd y geiriau gan John Hughes, Caesygawen, Brynteg, Sir Fôn.
41. HEN FORWYN BACH ANNWYL FY NAIN (42). (Ioan Peris, Ty Mawr, Treflys, Portmadoc.)

Oddi wrth yr uchod daw i'r amlwg ar unwaith fod y casgliad yn reit swmpus, ac felly'n tystio i ddiwydrwydd trawiadol gan un Cymro ym maes canu gwerin. Ymddengys, gyda hynny, i Tal Griffith gyflawni ei waith casglu ar adeg pan nad oedd fawr o neb arall yn ymgymryd â thasg gyffelyb

yn y wlad hon. O ystyried y dyddiadau a roir gogyfer â thraean o'r caneuon, ceir yr argraff mai'r blynyddoedd 1945-48 oedd ei brif gyfnod casglu ac, yn wir, mai yn nechrau 1945 y cychwynnodd gofnodi yn lled systematig — er, efallai, iddo wybod amryw o'r caneuon am flynyddoedd cyn hynny. (Clywsai rif 30, BONHEDDWR MAWR O'R BALA, er enghraifft, yn ystod ei blentyndod yn Llithfaen, a chodasai rif 1, MAE GEN I SWLLT, yn 1921, pan ar wyliau yn Sunderland.)

Mwy na thebyg mai yn Llŷn ac Eifionydd — ac yn nhre Pwllheli, yn anad unlle — y croniclwyd y rhan fwyaf ganddo. O gofio am ei ymwneud â Chôr Glannau Erch, diau mai am ganeuon o'r parthau hynny i sir Gaernarfon y chwiliaw Tal Griffith yn bennaf. Mae'n amlwg, ar yr un pryd, ei fod yn croesawu caneuon o barthau a siroedd eraill os oeddynt yn ateb ei bwrpas iddo. A chodai gân oddi wrth hwn a'r llall lle bynnag y ddi ar eu traws: pa un ai yn Neuadd y Penrhyn, ar ôl darllediad radio (rhifau 15 a 16); wrth gyfarfod ar faes eisteddfod (20); neu hyd yn oed wrth daro ar gydnabod "ar yr heol ym Mhwwllheli" (11).

Lle'r ychwanegodd nodiadau i'r caneuon, y wybodaeth a gynigir fynychaf yw enw a chyfeiriad y canwr, ynghyd â dyddiad casglu'r gân. Dro siawns aeth gam ymhellach, gan ddweud gair am ffynhonnell y gân i'r canwr, ac weithiau fe roes gofnod gwerthfawr ynglŷn ag amgylchiadau canu'r gân yn y gymdeithas Gymraeg mewn cyfnod cynharach. (Gweler, er enghraifft, y nodiadau ar rifau 12, 16, 21 a 29 ac yn enwedig rifau 24 a 30 — sy'n ffurfio dwy enghraifft reit anghyffredin o fewn i'n traddodiad brodorol, a'r naill gân yn cysylltu â dawnsio llofft stabal, tra bod y llall gynt yn cael ei defnyddio fel cân waith yn efail Pencaenewydd, ger Pwllheli.)

Gresyn, ar brydiau, na ddarparwyd nodiadau llawnach gogyfer â rhai o'r caneuon eraill. Nid yw hyn, fodd bynnag, yn rhwystr inni sylweddoli y gellir bras ddosrannu'r casgliad yn dair prif garfan o eitemau:

1. Caneuon cyngerdd — hynny yw, rhai a luniwyd ar gyfer llwyfan y gyngerdd ysgafn — a'r mwyafrif ohonynt wedi eu hargraffu ac mewn cylchrediad yn gyffredinol o tua chanol oes Victoria ymlaen. Ceir hefyd yma rai caneuon llwyfan sy'n fwy diweddar neu leol, onid y naill a'r llall.
2. Caneuon y taflenni baledi, a rhai ohonynt hwythau wedi ennill bri ar lwyfan cyngerdd, tra bod eraill o'u plith yn annerbyniol yno.
3. Caneuon gwerin, neu ganeuon llafar gwlad.

Wrth eu hadrannu fel hyn rhaid cydnabod ar yr un pryd nad carfannau yn ymgadw ar wahân mo'r rhain, ac eithrio mewn rhai sefyllfaeodd cymdeithasol arbennig. Wedi'r cwbl, y mae eu dwyn ynghyd yng nghasgliad Tal Griffith yn awgrymu — ac, efallai, wedi cadarnhau — rhyw fath o unoliaeth ynddynt. O graffu ar gynnwys y casgliad drwyddo draw fe ganfyddir, er enghraifft, mai canu seciwlar yw'r cwbl sydd ynddo. Ac er bod

ambell gerdd yn ddwys (15, 17), hiraethlon (11, 12, 36) neu brotestiol (21), at ei gilydd canu llawen a geir yma. Canu ydyw sy'n blasu'r dymunol a'r delfrydol, yn cydrannu hwyl ac afiaith — canu "ysgafn", i roi arno label cryno.

Yng ngolwg Tal Griffith ei hunan, prin fod pwys mawr i ddosbarthu a dadansoddi ar y casgliad a adeiladwyd ganddo. Hyd y gellir barnu, yr ystyr-iaeth flaenaf iddo ef ydoedd hel y caneuon hyn ynghyd i borthi *repertoire* ei gôr, a thrwy hynny ddarparu adloniant a difyrwrch i'w gynulleidfaoedd. Er bod i'r casgliad, yn ddiamau, ei arwyddocâd fel dogfen gymdeithasol sy'n cyfleu ansawdd cyngerdd ysgafn neu Noson Lawen mewn o leiaf un gongl o Gymru yn ystod ac wedi'r Ail Ryfel Byd, mae'n briodol cofio mai gydag amcan ymarferol, yn hytrach nag academiaidd, y'i trawyd at ei gilydd yn y lle cyntaf. Ac er colli Tal Griffith ers tro, fe erys o hyd y modd i eraill elwa ar ei lafur a defnyddio'i gasgliad i gyflawni'r un amcan.

Gan gydnabod pwysigrwydd hynny y cyflwynir yma chwech eitem o blith y caneuon a ddylai fod o ddiddordeb arbennig i aelodau Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Fe'u rhyddheir yn awr o dan hawlfraint Mrs. Euronwy Karlsen, gan estyn teyrnged ar yr un pryd iddi nid yn unig am warchod y casgliad a etifeddodd ond hefyd yn arbennig am ei chymwynas wrth ei gyflwyno at wasanaeth y genedl — ac eraill, o bosibl — wedi hyn.. (Hithau, ymhellach, a gyfrannodd y wybodaeth fywgraffyddol a ymgorfforwyd uchod.)

Fe wêl y sawl sy'n gyfarwydd â chanu gwerin Cymraeg mai fersiynau/ amrywiadau ar eitemau hysbys yw pedair o'r isod, tra bod y ddwy arall (rhifau 4 a 6) dipyn yn fwy diarth i'r mwyafrif ohonom.

1. MAE GEN I SWLLT

(I've Got a Shilling)

Yn rhydd

Mae gen i swllt, — peth braf ydy swllt; Swllt a
geidw fy mhen: — Ceiniog i wario a cheiniog i
swagro A deg i fynd adre i Gwen. —

1. Mae gen i swllt, peth braf ydy swllt;
Swllt a geidw fy mhen:
Ceiniog i wario a cheiniog i swagro
A deg i fynd adre i Gwen.
2. Mae gen i ddeg, peth braf ydy deg;
Deg a geidw fy mhen:
Ceiniog i wario a cheiniog i swagro
Ac wyth i fynd adre i Gwen.
3. Mae gen i wyth,
4. Mae gen i chwech,
A grôt i fynd adre i Gwen.
5. Mae gen i rôl,
6. Mae gen i ddwy,
A dim i fynd adre i Gwen.
7. 'Does gen i ddim, peth sobor ydy dim;
Dim ni cheidw fy mhen:
Dim i wario a dim i swagro
A dim i fynd adre i Gwen.

Troednodyn TG:

Clywyd gan Mr James Williams Rhyd-ddu pan ar fy ngwyliau yn Sunderland yn 1921.

2. Y GWYDR GLAS (The Green Glass)

Yn rhydd

Os daw 'nghariad yma heno, yma heno, ___ i
guro'r gwydyr glas, ___ Rhowch ateb gweddus iddo, gweddus
iddo, ___ Na a-tebwch mono'n gas, ___ Nad



1. Os daw 'nghariad yma heno, yma heno,
I guro'r gwydyr glas,
Rhowch ateb gweddus iddo, gweddus iddo, —
Na' atebwch mŏno'n gas —
Nad ydyw'r ferch ddim gartre,
Na'i h'wyllys da'n y tŷ,
Llanc ifanc o'r plwy arall, o'r plwy arall,
Sydd wedi mynd â hi.
2. Fy nghalon sydd cyn drymed, sydd cyn drymed,
A'r march sy'n dringo'r rhiw;
Wrth geisio bod yn llawen, bod yn llawen,
Ni fedrwn yn fy myw —
Yr esgid yn fy ngwasgu
Mewn lle nas gwyddoch chwi,
A llawer gofid calon, gofid calon,
Sy'n torri 'nghalon i.
3. Pe meddwn edyn eryr, edyn eryr,
Mi fyddwn lawer gwell
I hedeg at fy nghariad, at fy nghariad,
Sydd yn y gwledydd pell,
Dros diroedd maith a moroedd;
Gobeithio'i fod e'n iach —
'Rwy'n caru'r tir lle cerddodd, tir lle cerddodd,
O wraidd y galon bach.

Troednodyn TG:

Canwyd i mi gan fy nghyfaill Robert Griffith Trefgraig Bach, Rhoshirwaen ar yr heol ym Mhwllheli. [EK: Hefyd — gan J.C. Parry, Brynteg P.O., Sir Fôn — canwyd iddo gan ei fam ar ôl ei mam hithau — gan leiaf tua 1867.]

Y LLEUEN
(The Louse)



1. Ar y ffordd wrth fynd i Lundan,
Cwrddyd wnes â theiliwr llawan,
Ac wrth ymgomio gydag ef,
Ar ei lawes gwelais leuan.

Cytgan:

Ar ei lawes gwelais leuan,
Ar ei lawes gwelais leuan,
Ac wrth ymgomio gydag ef,
Ar ei lawes gwelais leuan.

2. Fe dynnais fy mhistol allan,
Fe'i saethais yn ei thalcan,
A thwrw-twrw mawr yn dod i lawr,
Fel ergyd fawr o ganan.

Fel ergyd fawr, etc.

3. Fe fûm i dridiau cyfan
Yn blingo yr hen leuan;
Wrth olau kannwyll a golau lloer
Fe'i blingais hi fy hunan.

Fe'i blingais hi, etc.

4. Fe ddaeth rhyw wagen heibio,
Fe deflais ei chig i honno,
Ac i Lundain dref yr eis ag ef,
Ces ugain gini amdano.

Ces ugain gini, etc.

Troednodyn TG:

Hen gan ganwyd flynyddoedd yn ol yn Llŷn ac Eifionydd.

4. Y GWAS A'R CEFFYL
(The Servant and the Horse)

Bûm yn meddwl un tro Mai fi oedd y ffarmwr pwysica'n y fro, Nes
dwedodd hen gono, "Rho'r ffidil yn to! Os ydwyf am lwyddo mae'n
rhaid iti weithio, Ni thâl iti smocio a swancio'n y dre, Rhaid yw
arddu y tyddyn a bwydo y mochyn, Bugeilio raid wedyn y
defaid, mae'n siwr, A gollwng 'rhen geffyl a'r gwartheg i'r dŵr."

1. Bûm yn meddwl un tro
Mai fi oedd y ffarmwr pwysica'n y fro,
Nes dwedodd hen gono, "Rho'r ffidil yn to! —
Os ydwyf am lwyddo mae'n rhaid iti weithio,
Ni thâl iti smocio a swancio'n y dre;
Rhaid yw arddu y tyddyn a bwydo y mochyn,
Bugeilio raid wedyn y defaid, mae'n siwr,
A gollwng 'rhen geffyl a'r gwartheg i'r dŵr."
2. O, be' tasa'r hen was
Yn treio'r hen geffyl wrth ochor y das —
Mi fasa'n beth rhyfedd! — yn lle'r gaseg las?
O'r odyn fe redodd, ofnadwy fe neidiodd,
Mor llym y carlamodd, nes deuodd i daith,
Nes rowliodd yr olwyn hyd ochor yr echwyn,
Mi dybiaf mai'r dibyn fu'n derfyn i'w daith!
'Dwn i ddim be' fu'r diwedd, a 'waeth gen i, chwaith!

Troednodyn TG:

Canwyd i mi gan Thomas Edwards Hendre Eirian Talybont Sir Feirionnydd yn Ninas Mawddwy 15/12/48.

'Jig' neu ddawns llofft stabal i'w chanu yn gyflym ac yn ddigrifol. Tebyg mai rhyw fath o 'Step y Glocsan' yw.

5. MAE GAFR ETO

(There's Another Goat)

Yn araf
Mae gaf(y)r eto, Oes, heb ei godro: Gafr wen, foel wen,
Yn gyflym
Finwen, feinwen, felen, gyffonwen, Foel â chydyn a chynffon wen! Wen!


1. Mae gafr eto,
Oes, heb ei godro:
Gafr wen, foel wen,
Finwen, feinwen, felen, gytttonwen,
Foel â chydyn a chynffon wen!
Finwen, feinwen, felen, gyffonwen,
Foel â chydyn a chynffon wen. Wen!
2. Mae gafr eto,
Oes, heb ei godro:
Gafr goch, foel goch,
Fingoch, feingoch, felen, gyffongoch,
Foel â chydyn a chynffon goch!
Fingoch, feingoch, felen, gyffongoch,
Foel â chydyn a chynffon goch. Goch!
3. Mae gafr eto,
Oes, heb ei godro:
Gafr las, foel las,
Finlas, feinlas, felen, gyffonlas,
Foel â chydyn a chynffon las!
Finlas, feinlas, felen, gyffonlas,
Foel â chydyn a chynffon las. Las!

Troednodyn TG:

Hen alaw adnabyddus mewn rhai mannau y dyddiau gynt.

6. YNG NGLAN Y MÔR MAE GWIN AR WERTH

(By the Sea There's Wine for Sale)



1. Yng nglan y môr mae gwin ar werth,
Yng nglan y môr mae brandi,
Yng nglan y môr mae'r eneth lân
Sy'n meddwl am briodi.
2. Faint yw pris y gwin ar werth,
A faint yw pris y brandi,
A faint yw pris yr eneth lân
Sy'n meddwl am briodi?
3. Swllt yw pris y gwin ar werth,
A swllt yw pris y brandi,
Ond saith a chwech yw'r eneth lân
Sy'n meddwl am briodi!

Troednodyn TG (yn llaw EK):

Canwyd i mi gan ED Coedcaegwyn a Morris Jones o Langybi gynt o Dolwyddelen. 23:4:52.

[The six songs printed above are:

1. MAE GEN I SWLLT. (I've Got a Shilling). One of many Welsh versions of the ubiquitous "I've Got Sixpence".
2. Y GWYDR GLAS (The Green Glass). These are verses 1, 4 and 5 of a widespread night-visit song as it was published, in five verses, on Welsh ballad-pamphlets. Its two closing verses, which convey the misery of heartbreak and separation, are found — though not necessarily as a whole or in the above sequence — in several other folk songs and might well have been oral "floaters" before appearing on the pamphlets.
3. Y LLEUEN. (The Louse). A reduced form of the tall-tale song whose comedy centres upon the gigantic attributes of a slaughtered louse.
4. Y GWAS A'R CEFFYL (The Servant and the Horse). In its source-manuscript this is described as a "stable-loft 'jig' or dance to be sung swiftly and comically." Its text is voiced in the First Person by the servant, whose abandoned attitude, in Verse 2, towards a mis-hap with horse-and-cart contrasts tellingly with the duty-bound and ascetic ideal quoted in the opening verse. In the latter part of the song, its jig rhythm is skillfully intermarried with an alliterative text.
5. MAE GAFR ETO (There's Another Goat). One of the several existing variants of a cumulative song which is known to have been used in north-west Wales, prior to the 19th century, during the course of ritual singing contests held between itinerant wassailers and house-occupants at Candlemas (2 February).
6. YNG NGLAN Y MÔR MAE GWIN AR WERTH (By the Sea There's Wine for Sale). Set in the triadic format so commonly found in Welsh "Hen Benillion" ("Traditional Stanzas"), this amounts to no more than a playful musing — in question-and-response sequence — on the bare economics of marrying a fair maid.

All six songs are here reproduced from a MS collection of 41 "Caneuon Cefn Gwlad" ("Countryside Songs") that were noted from oral tradition by Tal Griffith (1901-1959) of Pwllheli, Caernarvonshire (Gwynedd). The latter was by profession a chartered accountant; music was to him a hobby. Most of the 41 songs appear to have been gathered by him during the period 1945-48, and mainly within his native county. During the Forties and Fifties he ran his own male-voice party (Côr Glannau Erch), which gave regular concerts throughout Caernarvonshire and broadcast several times from the BBC's radio studio in Bangor. The party's repertoire comprised, chiefly, penillion-settings and light-hearted songs, these usually being performed in four-part harmonised arrangements produced by Tal Griffith himself. (His MS, on the other hand, contains melody-lines only.)

The 41 songs, whose texts are all in the Welsh language, include

established Victorian and later concert songs, and some ballad-sheet material, as well as numerous "caneuon llafar gwlad" ("oral tradition songs"). Seemingly, Tal Griffith's collecting was geared, quite simply, to building up the repertoire of Côr Glannau Erch, and therefore had direct practical application within the field of entertainment.

The original MS — which is actually an "exercise-book" — was donated last year to the Welsh Folk Museum by the collector's daughter, Mrs. Euronwy Karlsen, now of Wimbledon. Ed.]

I unrhyw un a fo'n ymddiddori ym maes canu gwerin Cymru, testun calondid fydd y rhan fwyaf o'r hyn sy'n dilyn. Bellach ni ellir llai na sylweddoli bod gweithgarwch yn y maes hwn yn llawer mwy amrywiol a bywiog nag ydoedd, dyweder, ddeng mlynedd yn ôl a chafwyd o fewn i'r flwyddyn neu ddwy ddiwethaf ddatblygiadau arwyddocaol i fwy nag un cyfeiriad newydd.

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

Cwrs Penwythnos: Cynhaliwyd cwrs 1979 fis Medi, ym mhlas Gregynog, Powys, a chafwyd darlithiau gan Mr. Peter Cooke (ar "Aspects of Folk Music Tradition in Scotland"), Miss Ann Rosser (ar "Y Telynor a'r Gymdeithas yng Nghymru, 1700-1900"), Mr. Emrys Bennett Owen (ar "Nicholas Bennett") a Mr. Tegwyn Jones (ar "Ywain Meirion"). Cyflwynodd Mr. Cooke hefyd ddetholiad o ffilmiau ethnomiwsicolegol. Eleni fe gynhelir ein cwrs yn Neuadd Pantycelyn, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, yn ystod y penwythnos 12-14 Medi a disgwylir cael darlithiau y tro hwn gan Mrs Rhiannon Ifans, Miss Phyllis Kinney, a'r Meistri Tecwyn Ellis, Allan James a D. Roy Saer. Am fanylion pellach, holer ein Hysgrifennydd.

Gŵyl Werin Cymru: Wedi blwch yn 1979 adferir yr ŵyl eleni ac fe'i cynhelir yn Rhydaman ar yr 8fed Tachwedd. Bydd y Gyngerdd am 6.30 yn neuadd yr Ysgol Gyfun, Heol Marged, a'r Twmpath Dawns wedyn y drws nesaf, yn y Neuadd Ddinesig, am 9.30.

Cyhoeddiadau: Yn ogystal â'i Chylchgrawn blyneddol y mae'r Gymdeithas eleni — eto, gyda chymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru — yn dwyn i olau dydd ddau gyhoeddiad ychwanegol, sef

- (a) erbyn yr Eisteddfod Genedlaethol: *Lleisiau'r Werin*, yn cynnwys 12 o drefniannau (SATB, SSA ac SA) ar ganeuon gwerin Cymru. Pris £1.50. (£1.65 trwy'r post)
- (b) o hyn i ddiwedd y flwyddyn: *Caneuon Gwerin i Blani*, gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans, yn cynnwys 64 cân.

Erbyn yr haf nesaf, gobeithio, fe gyhoeddir hefyd ddetholiad newydd o 43 cân werin Gymraeg, eto o dan olygyddiaeth Phyllis Kinney a Meredydd Evans, a bwriedir wedi hynny ddarparu o leiaf un detholiad arall i'w ddilyn.

NANSI

Y mae dod i'r uchod yn bennawd yn gyfystyr â defnyddio enw sefydliad. I gannoedd, onid mil-oedd, o'i chyd-Gymry dyna oedd "Telynores Maldwyn" (Dr. Nansi Richards Jones, M.B.E.) a fu farw, yn 91 oed, yn Ysbyty Dolgellau ar yr 21ain Rhagfyr y llynedd. Hwyrach mai ei pherson-oliaeth unigryw a argraffodd ei hun ddyfnaf ar gof y rhai a'i cyfarfu ond yr oedd "Telynores Maldwyn" gyda hynny yn ffigur o bwys aruthrol yn hanes cerddoriaeth draddodiadol ein cenedl. Da yw cael ar ddeall fod un ymchwilydd o fri cydwladol yn rhoi sylw iddi ar hyn o bryd. Dros ugain mlynedd yn ôl bu Miss Joan Rimmer, Rhydychen, yn ei recordio ym Mhen-y-bont-fawr, a chyhoeddodd amdani wedyn drwy gyfrwng rhaglenni radio a chylchgrawn y Galpin Society. Fis Mai eleni cyflwynodd yr un wraig (bellach, Mrs. Joan Harrison-Rimmer o Utrecht, Yr Iseldiroedd) bapur ar "Delynores Maldwyn" mewn cynhadledd ar offer-cerdd gwerin yn Seggau, Awstria, a chyhoeddir hwnnw yn y dyfodol agos gan y Musikhistorisk Museet, Stockholm, yn seithfed gyfrol ei *Studia Instrumentorum Musicae Popularis*.

CYHOEDDIADAU NEWYDD

Ar wahân i gyhoeddiadau'r Gymdeithas ei hunan, cyhoeddwyd yn ystod y deuddeng mis diwethaf amryw gyfrolau o ddiddordeb arbennig i'n haelodau:

Baledi Ywain Meirion, gol. Tegwyn Jones (Llyfrau'r Faner, 1980, xxxv a 225 tudalen, Pris £1.75).

Eldra Jarman ac A.O.H. Jarman, *Y Sipsiwn Cymreig* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1979, xx a 210 tudalen, Pris £9.95 am glawr caled a £5.95 am glawr meddal).

Osiain Ellis, *Hanes y Delyn yng Nghymru/The Story of the Harp in Wales* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1980, 91 tudalen, Pris £1.50).

Ymhlith disgiau newydd ymddangos y mae record hirfaith arall o ganeuon gwerin Cymraeg — 19 ohonynt — yn cael eu canu gan ein Hysgrifennydd, Mrs. Buddug Lloyd Roberts. Fe'u datgenir i gyfeiliant Miss Elinor Bennett Owen a chyhoeddir y record gan Gwmni Recordiau Cambrian. Yn ddiweddar hefyd, a thrwy law Cwmni Sain, rhyddhawyd *Caneuon Llofft Stabal* fel yr ail yn y gyfres *Traddodiad Gwerin Cymru* (gol. D. Roy Saer), sy'n seiliedig yn bennaf ar recordiadau o gasgliad Amgueddfa Werin Cymru.

TRAETHODAU GRADDAU UWCH

Erbyn cyhoeddi'r rhifyn hwn o'n Cylchgrawn disgwylir y bydd Miss Ann Rosser, Caerdydd, wedi derbyn ei gradd M.A. am ei thraethawd "*Hanes y Delyn yng Nghymru, 1700-1900*" a Mrs Rhiannon Ifans, Penrhyn-coch, Aberystwyth, wedi derbyn doethuriaeth am draethawd ar y testun "*Canu Gwaseila yn y Gymraeg*". Cyflwynwyd y ddau draethawd drwy Adran y Gymraeg, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Ar hyn o bryd y mae Amgueddfa Werin Cymru yn paratoui i gyhoeddi traethawd Miss Rosser, ac y mae'n fwriad gan Mrs. Ifans hefyd gyhoeddi ei gwaith.

O fewn i Adran Gerddoriaeth yr un coleg y mae Miss Eirian Jones (sy'n adnabyddus fel cantores eisteddfodol ym maes canu gwerin) ar fin cwplâu traethawd M.A. ar Maria Jane Williams, Aberpergwm, golygydd y casgliad *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* (1844).

Ym mis Medi 1979, o fewn i'r Instituut Voor Muziekwetenschap, Prifysgol Amsterdam, enillodd Hein Calis ddoethuriaeth, *cum laude*, am astudiaeth ar saith gosodiad penillion ar gainc "*Llwyn Onn*". Cyflawnodd waith maes yma yng Nghymru yn ystod hafau 1973 a 1974.

SWYDD BRIFYSGOL

I'r swydd Cynorthwywr Ymchwil i Ganu Gwerin Cymru, yn yr Adran Gerddoriaeth, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, apwyntiwyd Mr. Wyn Thomas, a enillasai radd amrhydedd B.Mus. (Dosbarth Cynaf) yn yr un adran yn 1979. Cymro Cymraeg sy'n frodor o Aberystwyth yw Mr. Thomas.

Bellach y mae wedi cael blwyddyn yn ei swydd. Treuliodd ran helaeth o'i amser yn archwilio'r casgliadau canu gwerin yn Amgueddfa Werin Cymru, a chanolbwyntiodd i ddechrau ar sefydlu llyfryddiaeth ym maes cerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru. Ymwelodd hefyd â sefydliadau eraill o fewn i Gymru — y Llyfrgell Genedlaethol, yn enwedig — a bu am dair wythnos yn Iwerddon i drafod ag arbenigwyr yng ngholegau prifysgol Cork, Galway a Dulyn, yn ogystal â Choleg y Frenhines, Belfast. Traddodwyd ganddo dair darlith gyhoeddus ym Mangor. Yn ystod Awst a Medi bydd ar ymweliad ag amryw sefydliadau perthnasol yn yr Unol Daleithiau.

CYRSFEYDD

Yn ystod penwythnos 18-20 Ebrill, cynhaliwyd cwrs preswyl ar ganu gwerin yng Nghanolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri, Mæntwrog, Gwynedd. Darlithiwyd gan Miss Phyllis Kinney,

Dr. Meredydd Evans a Mr. D. Roy Saer, a chafwyd hefyd yno sesiynau canu.

Yn niwedd Mawrth, yng Ngholeg Newnham, Caergrawnt, bu chweched cynhadledd yr International Folk Music Council (U.K. National Committee). Aethpwyd iddi gan Mri. Wyn Thomas a D. Roy Saer o Gymru. Y flwyddyn nesaf daw'r gynhadledd hon i dde-orllewin Lloegr, sef i Dartington, yn swydd Dyfnaint.

DARLLEDU

I garedigion canu gwerin Cymru fe fu amser cinio bob dydd Iau yn adeg i geisio sicrhau bod y radio ymlaen. O fis Tachwedd y llynedd hyd ddechrau Gorffennaf eleni darlledwyd rhaglen "Clwb Gwerin" yn wythnosol ar Radio Cymru, gyda Gareth Lloyd Williams yn cynhyrchu ac Emyr Wyn yn cyflwyno. Rhaid llongyfarch y ddau ar lwyddiant y gyfres a hefyd ddiolch i BBC Cymru am ei darparu. Gobeithio, yn wir, y clywir darlledu ail gyfres y gaeaf nesaf. Un apêl hefyd, wrth fynd heibio: tybed a ellid lleoli cyfres fel hon gyda'r hwyr yn hytrach na thua amser cinio, er mwyn ceisio dal cynulleidfia ehangach.

GWYLIAU

Erbyn cyhoeddi'r rhifyn hwn fe fydd Gŵyl Werin Geltaidd Dolgellau drosodd. Wedi llewyrch gŵyl 1979 y mae gobaith am gynnydd ychwanegol eleni. Dymunwn iddi bob llwyddiant i'r dyfodol. Y mae'n llenwi bwlch pwysig o ran gweithgarwch canu gwerin yng Nghymru, ac fe allai ddatblygu'n ŵyl allweddol i'r holl wledydd Celtaidd o ystyried lleoliad daearyddol ein gwlad ni ynghanol y rhain.

Yn ystod penwythnos 15-17 Awst cynhelir Gŵyl Pontardawe unwaith yn rhagor. Am docynnau (£7.50 neu Docynnau Dydd) anfoner at "Gŵyl Pontardawe", 210 Tyn-y-cae, Allt-wen, Pontardawe, Gorllewin Morgannwg, neu ffonier 0792 864 189.

CLYBIAU GWERIN CYMRAEG

Un o ganlyniadau calonogol Gŵyl Werin Geltaidd Dolgellau y llynedd fu sefydlu amryw glybiau canu gwerin Cymraeg, gan ychwanegu at y dyrnaid a oedd mewn bodolaeth eisoes. Gymaint fu'r cynnydd, yn wir, fel yr etholwyd Alwyn ap Huw, Dolgellau, ym mis Mehefin eleni yn gysylltydd swyddogol rhwng y clybiau gwerin hyn yng Nghymru. Y mae'r datblygiad hwn yn un i'w groesawu yn fawr, ac edrychwn ymlaen at weld cydweithrediad ffrwythlon i'r dyfodol rhwng ein clybiau gwerin a Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru.

For anyone who takes an interest in the field of Welsh folk music, most of what follows should prove heartening. We can no longer fail to realise that activity within this field is much more varied and vigorous than it was, say, ten years ago, and there have been, within the last year or two, significant developments in more than one fresh direction.

WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Weekend Course: Our courses in 1979 was held in September at Gregynog Hall, Powys, where lectures were delivered by Mr. Peter Cooke (on "Aspects of Folk Music Tradition in Scotland"), Miss Ann Rosser (on "Y Telynor a'r Gymdeithas yng Nghymru, 1700-1900" — "Harpist and Society in Wales, 1700-1900"), Mr. Emrys Bennett Owen (on the 19th-century tune-collector Nicholas Bennett) and Mr. Tegwyn Jones (on the 19th-century ballad writer and singer 'Ywain Meirion'). Mr. Cooke also presented a selection of ethnomusicological films. This year our course will be held in Pantycelyn Hall, University College of Wales, Aberystwyth, during the weekend of 12-14 September and lectures are expected this time from Mrs. Rhiannon Ifans, Miss Phyllis Kinney, and Messrs. Tecwyn Ellis, Allan James and D. Roy Saer. Additional details are obtainable from our Secretary.

Gŵyl Werin Cymru (Welsh Folk Festival): Following its omission in 1979 the Festival continues this year and will be held in Ammanford, Dyfed, on the 8th November. A concert will be staged at 6.30 in the hall of the Comprehensive School, Margaret Road, to be followed at 9.30 by a Folk Dance in the nearby Civic Hall.

Publications: In addition to its annual Journal the Society this year will issue — again, with the financial aid of the Welsh Arts Council — two additional publications:

- (a) in time for the National Eisteddfod: *Lleisiau'r Werin* (The People's Voices), a volume of 12 arrangements (SATB, SSA and SA) of Welsh folk songs. Price £1.50 (£1.65 by post)
- (b) before the end of the year: *Caneuon Gwerin i Blant* (Folk Songs for Children), ed. Phyllis Kinney and Meredydd Evans, containing 64 songs.

By next summer, it is hoped, there will also have been published a fresh selection of 43 Welsh folk songs, again under the editorship of Phyllis Kinney and Meredydd Evans, to be followed later by at least one additional selection.

NANSI

To adopt the above as a caption is synonymous with using the name of an institution. For hundreds, if not thousands, of her fellow Welsh people, "Telynores Maldwyn" (Dr. Nansi Richards Jones, M.B.E.) was no less than that. On the 21st December of last year, at 91 years of age, this queen of Welsh harpists died at Dolgellau Hospital. More than likely it was her unique personality that impressed itself most profoundly on those who met her, but she was also a figure of paramount importance in the history of traditional music in our country. It is gratifying to learn that one scholar of international repute is currently granting her attention. Over twenty years ago, Miss Joan Rimmer, then of Oxford, recorded Nansi at her home at Pen-y-bont-fawr and afterwards published about her through both radio programmes and The Galpin Society Journal. In May this year, the same scholar (now Mrs. Joan Harrison-Rimmer, of

Utrecht, Holland) read a paper on the harpist at a meeting of the IFMC's Study Group on Folk Instruments, held at Seggau in Austria, and she will shortly have that paper published by the Musikhistorisk Museet, Stockholm, in the forthcoming seventh volume of its *Studia Instrumentorum Musicae Popularis*.

NEW PUBLICATIONS

Apart from the Society's own publications, some other volumes of particular interest to our members have appeared during the last twelvemonth:

Baledi Ywain Meirion, ed. Tegwyn Jones (published by Llyfrau'r Faner, Y Bala, Gwynedd, 1980, xxxv + 225 pp., £1.75.) A collection of 33 ballads by "Ywain Meirion", one of our foremost ballad writers/singers during the 19th century, together with biographical preface, background notes, 5 ballad airs, photographs, etc.

Eldra Jarman and A.O.H. Jarman, Y Sipsiwn Cymreig (University of Wales Press, Cardiff, 1979, xx + 210 pp., £9.95 hard cover or £5.95 soft cover). A definitive work on "The Welsh Gypsies" and one which deals in detail with the musically significant Wood and Roberts families.

Osian Ellis, Hanes y Delyn yng Nghymru/The Story of the Harp in Wales (University of Wales Press, Cardiff, 1980, 91 pp., photographs, drawings, music, £1.50). A bilingual publication, a major portion of which is devoted to discussing the MSS (dated early 17th century and 1745 respectively) of harpists Robert ap Huw and Evan Williams.

Among records issued recently is a second L.P. of Welsh folk songs — 19 of them — sung by our Secretary, Mrs. Buddug Lloyd Roberts. Harp accompaniments are provided by Miss Elinor Bennett Owen and the record is released by Cambrian Recordings Ltd. Just out, too — through Sain Records Ltd — is Caneuon Llofft Stabal/Stable-Loft Songs, available in L.P. disc or cassette form and packaged complete with an accompanying 28-page bilingual booklet. This is the second release in the series Traddodiad Gwerin Cymru/Welsh Folk Heritage (ed. D. Roy Saer) which is based mainly upon recordings from the sound-archives of the Welsh Folk Museum.

HIGHER DEGREE DISSERTATIONS

It is expected that by the time that the present number of the Journal appears Miss Ann Rosser, of Cardiff, will have received her M.A. degree for her dissertation "The History of the Harp in Wales, 1700-1900" and Mrs. Rhiannon Ifans, of Penrhyn-coch, Aberystwyth, her doctorate for a thesis on "Wassail Song in the Welsh Language". Both these dissertations were submitted through the Department of Welsh, University College of Wales, Aberystwyth. The Welsh Folk Museum is currently preparing to publish Miss Rosser's dissertation, and Mrs Ifans, too, intends to have her work published later on.

Within the Department of Music at the same college, Miss Eirian Jones (who is well known in Wales as an eisteddfodic folk-singer) is close to completing an M.A. dissertation upon Maria Jane Williams, editor of the earliest printed collection of Welsh folk songs, *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* (1844).

In September 1979, within the Instituut Voor Muziekwetenschap, University of Amsterdam, Hein Calis was awarded his doctorate, cum laude, for a study of seven penillion settings to the air "Llwyn Onn" ("The Ash Grove"). He undertook fieldwork here in Wales during the summers of 1973 and 1974.

UNIVERSITY POST

Mr. Wyn Thomas was appointed to the post of Research Assistant in Welsh Folk Music in the Department of Music, University College of North Wales, Bangor. Mr. Thomas gained a B.Mus. Honours Degree (First Class) within the same department in 1979, and is a Welsh-speaking native of Aberystwyth.

He has now completed his first college session in the post. During the three terms he spent a considerable portion of his time examining the ethnomusicological collections of the Welsh Folk Museum, where he concentrated initially on establishing a bibliography for Welsh traditional music. He also visited other institutions in Wales — notably the National Library — and spent three weeks in Ireland, where he consulted relevant specialists at the university colleges of Cork, Galway and Dublin and at the Queen's University of Belfast. In Bangor itself he delivered three public lectures. During this August and September he is to visit several ethnomusicological centres in the United States.

COURSES

During the weekend of 18-20 April a residential course on folk-song was held at the Snowdonia National Park Study Centre, Maentwrog, Gwynedd. Lectures were given by Miss Phyllis Kinney, Dr. Meredydd Evans and Mr. D. Roy Saer, and practical song-sessions were also included.

Towards the end of March, the sixth conference of the U.K. National Committee of the International Folk Music Council was held at Newnham College, Cambridge. Messrs. Wyn Thomas and D. Roy Saer attended from Wales. Next year the conference moves to the West of England and will be held at Dartington, Devon.

BROADCASTING

For devotees of Welsh folk music, Thursday lunchtime has been, for many months, a radio-listening period. From its inception last November through to the beginning of July, the Welsh-language "Clwb Gwerin" ("Folk Club") was then broadcast weekly on the Radio Cymru channel, being produced by Gareth Lloyd Williams and presented by Emyr Wyn. Both deserve to be congratulated upon the success of the series and our thanks go to BBC Wales for putting on the programme. We hope that next winter will bring a second series. Just one appeal, in passing: is there any hope of having such a series broadcast during the evening, rather than at lunchtime, so as to aim for a wider audience?

FESTIVALS

When the present number of our Journal appears, Dolgellau Celtic Folk Festival will already have taken place. Following its impressive start in 1979 there is hope of additional success this year. We wish it well for the future. It fills a crucial gap in folk music activity in Wales, and could well develop into a key festival for the Celtic countries in general, bearing in mind the advantageous central location of Wales among these.

Pontardawe Festival arrives once more on the weekend of 15-17 August. For tickets (£7.50 or, otherwise, Day Tickets), write to "Pontardawe Festival", 210 Tyn-y-cae, Allt-wen, Ponardawe, West Glamorgan, or telephone 0792 864 189.

WELSH-LANGUAGE FOLK CLUBS

One of the stimulating results of last year's Dolgellau Celtic Folk Festival was the opening of several Welsh-language folk clubs, to add to the handful already in existence. Such, indeed, was the increase that in June of this year Alwyn ap Huw, of Dolgellau, was appointed as liaison officer for these clubs. This development is to be greatly welcomed and we look forward to seeing fruitful cooperation in the future between such clubs and the Welsh Folk-Song Society.

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

A garech chwi ymuno â Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru? Neu, os ydych eisoes yn aelod, beth am ddarbwyllo rhywun arall i ymuno?

Sefydlwyd y Gymdeithas yn 1908. Ei phwrpas yw casglu, cadw a pherfformio caneuon gwerin Cymru, cyhoeddi enghreifftiau dethol ohonynt, a hybu ymchwil, yn llenyddol a cherddorol, yn y maes hwn. Erbyn hyn ymddangosodd dros ugain rhifyn o'i chylchgrawn, gan gynnwys dros 500 o ganeuon. Yn flynyddol er 1963, ac ym mis Medi, cynhaliwyd cwrs penwythnos o ddarlithiau (gan arbenigwyr o Gymru a gwledydd estron), trafodaethau a chanu. Bob mis Hydref, hefyd, llwyfennir Gŵyl Werin Cymru, gŵyl undydd a drefnir ar y cyd gan Gymdeithas Ddawns Werin Cymru a'n Cymdeithas ninnau.

Y tanysgrifiad blynyddol yw £2 i Oedolion, £3 i Wŷr a Gwagedd ynghyd, a £1 i blant. Dosberthir ffurflenni ymaelodi gan yr Ysgrifennydd:

Mrs Buddug Lloyd Roberts, Hafan, Cricieth, Gwynedd (Ffôn: Cricieth 2096).

THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Would you like to join the Welsh Folk-Song Society? Or, if you are already a member, why not persuade someone else to join?

The Society was established in 1908. Its aims are the collection, preservation and performance of Welsh folk-song, its publication, and the encouragement of related research-work. By today, over twenty numbers of its Journal have appeared, including over 500 songs (nearly all of them with Welsh-language texts). Annually since 1963, and usually in September, the Society has held a weekend course of lectures (by specialists from Wales itself and other countries), discussions and song. Every October, too, in conjunction with the Welsh Folk Dance Society, it stages the one-day Gŵyl Werin Cymru (Welsh Folk Festival).

Annual subscription is £2 for Adults, £3 for Husbands and Wives jointly, and £1 for Children. Membership forms are available from the Secretary:

Mrs. Buddug Lloyd Roberts, Hafan, Cricieth, Gwynedd (Tel: Cricieth 2096).

